YR YMOFYNYDD.

"PROFWCH BOB PETH: DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

MEHEFIN, 1868.

ANNERCHIAD I RIENI A CHYNNULLEIDFAOEDD UNDODAIDD.

Mae hyffordi ein plant yn ein hegwyddorion crefyddol yn bwnc pwysfawr ac yn un a ddylem gymmeryd dan ein dwys ystyriaeth. Gan nad beth ydyw'r achos, rhaid addef fod peth esgeulusdod wedi bod arnom, ac yn bod, yn y cyflawniad o'r ddyledswydd. Yr ydym yn ofni nad oes dim cymmaint o ymdrech yn ein plith ag a ddylai fod i egluro erthyglau ein ffydd i'n plant a ieuengctid ein cynnulleidfaöedd, a'u hargraffu ar eu meddyliau. Yn wir, yr ydym yn feius ar y pen hwn, ac y mae yn bryd diwygio. Gwyddom am rieni Undodaidd a adawant eu plant i fyned, Saboth ar ol Saboth, i'r addoliad a fynnont, pan y mae addoliad Undodaidd yn eithaf cyfleus. Ymddengys fel pe na byddai gan y rhieni gartref ddim awdurdod ar eu teulu. Un pen i'r dydd gadawant i'w plant fyned i gapel yr Independiaid, neu'r Bedyddwyr, neu'r Wesleyaid, tra maent hwy yn myned i'w capel eu hunain; yn y prydnawn â'r plant i Eglwys y Llywodraeth, ac yn yr hwyr i gapel y *Roman Catholics* os bydd un yn agos yn y gymmydogaeth. Ant yma a thraw i wahanol addoliadau yn gymmwys fel y tarawo'r fympwy yn eu pennau. Mor ddifatter yw rhai rhieni Undodaidd ar y pen hwn fel y caniatant i'w plant fyned hyd yn ôd i ysgolion Sul Trindodaidd, ac i fod yn athrawon yno, tra mae ysgol safadwy, reolaidd, a da, yn perthyn i'w capel eu hunain! Beth yw hyn ond difatterwch? Yr ydym yn gadael i'n plant dyfu i fynu mewn hollol anwybodaeth o'n hegwyddorion crefyddol. Y canlyniad yw, pan ymadawant â'n cronlwyd, troant eu cefnau ar ein haddoliad, ac unant â'r enwad hyn neu'r enwad arall, yn gymmwys fel y digwyddo amgylchiadau. Yr ydym yn adnabod plant rhai rhieni Undodaidd wedi tyfu i oedran synwyr yn hollol ddifatter y'nghylch crefydd, ac eraill ag ydynt wedi uno ag eglwysi Trindodaidd, a hynny o herwydd esgeulusdod eu rhieni i'w hegwyddori pan yn ieuainc. Nid gwiw celu y ffaith. Rhy gyffredin yw'r esgeulusdod hwn yn ein plith ac y mae yn galw am ddiwygiad. Os yw y gwirionedd o werth i ni, mae yn werth i'w ddysgu i'n plant.

Rhaid addef fod yr enwadau Trindodaidd yn llawer mwy gofalus nag

ydym ni i egwyddori eu plant yn eu syniadau. Edrychwn ar y drafferth gymmerant i ddysgu iddynt eu pynciau yn eu hysgolion Sul· Nid ydynt yn caniatau ychwaith i'w plant i grwydro ar y Saboth o addoliad i addoliad, ond deuant a'u plant gyda hwynt i'w haddoliad eu hunain. Dyma fel y dylem ninnau wneuthur. Mae yn beth anffodus fod rhyw dyb wag a disail wedi ymlysgo i mewn i'n plith ni, yr Undodiaid, na ddylem ni ddim dysgu ein syniadau crefyddol i'n plant cyn y cyrhaeddont oedran synwyr, *rhag ofn rhagfarnu eu meddwl!* Ymaith ar fath dyb gyfeiliornus. Mae wedi gwneuthur niwed mawr i'n plant, ac wedi teneuo ein heglwysi.

Ym mhob oes o'r Eglwys Gristionogol ystyrid egwyddori plant mewn crefydd yn un o'r dyledswyddau mwyaf pwysig. Yn y canrifoedd cyntaf yr oedd gan y Cristnogion yn wastad eu *catechumens.* Plant aelodau yr eglwys oedd y rhan fwyaf o'r catechumens, yn myned trwy gwrs o addysc yn egwyddorion yr Efengyl i'r dyben i'w paratoi erbyn bedydd, ac i gael eu derbyn i mewn i'r Eglwys. Ni fu eglwys erioed yn llwyddianus ac yn fendith i eneidiau dynion heb gymmeryd gofal i roddi addysc grefyddol i'w hieuengctid. Yn y wlad hon, yr amser mwyaf blodeuog ar ein heglwysi oedd oddeutu diwedd y canrif diweddaf a dechreu hwn. Y pryd hwnnw yr oedd class o gatechumens braidd gan bob eglwys. Nid oedd Doctor Priestley nemawr byth heb glass o'r fath yn cynnwys ieuengctid ei gynnulleidfa, a chymmerai drafferth nid bychan i'w dysgu. Cyfarfyddai â'r class unwaith yn yr wythnos yn yr hwyr. Cawsom y pleser o adnabod hen Undodwr selog yn Lloegr, rai blynyddau yn ol, ag oedd wedi bod yn un o gatechumens y Doctor. Mawr gyda'r fath bleser y siaradai am gyfeillgarwch a natur dda y Doctor, a'r adeiladaeth a gafodd yn ei glass. Dywedodd wrthym fod addysgiadau y Doctor yn gynnwysedig, fynychaf, yn esbonio yr Ysgrythyrau ac egluro i'r class brif egwyddorion y grefydd Gristionogol. Gosodai bwys mawr, meddai, ar weithredoedd nerthol yr Iesu, yn enwedig y wyrth fwyaf o bob gwyrth, sef ei adgyfodiad o feirw, trwy'r hwn y sicrheir i ni fywyd ac anfarwoldeb tu draw i'r bedd. Ystyriai yr hen wr mai y fraint fwyaf a gafodd yn ei fywyd oedd *attendo* y class hwnnw. Yr oedd gan Doctor Carpenter, hefyd, yn Exeter, glass o'r fath. Yr oedd y diweddar Barchedig Benjamin Mardon yn un o'i gatechumens. Clywsom ein hen gyfaill dysgedig yn yn dyweyd ragor nag unwaith mai i'r addysciadau a gafodd yng nghlass Doctor C. yr oedd efe yn ddyledus am ei egwyddoriad yn y syniadau Undodaidd. Yr oedd class o gatechumens gan Wellbeloved, yn York, a chan Cappe o'i flaen; gan Turner yn Newcastle; Kenric yn Exeter; ac amrywiol eraill allwn enwi o'r hen weinidogion. Yr oedd hen weinidogion Undodaidd Poland hefyd yn wastad yn cymmeryd trafferth mawr i addyscu ieuengtid eu cynnulleidfaöedd. I'r dyben hynny y cyfansoddasant y llyfryn rhagorol hwnnw a elwir y *Racovian Catechism.* Mae'r Eglwysi Undodaidd yn Transylvania yn gwneuthur yr un peth hyd y dydd heddyw. Ystyriant mai'r wyn yw gobaith y praidd.

Dylem ninnau yng Nghymru ystyried fod egwyddori ein plant yn ein syniadau crefyddol yn ddyledswydd arnom o'r pwys mwyaf, fel pennau teuluoedd ac fel cynnulleidfaöedd. "Hyffordda blentyn ym mhen ei ffordd, a phan heneiddia nid ymedy a hi" yw cyngor y gwr doeth.

Cyngor ydyw ag sydd yn sylfaenedig ar egwyddorion ein natur. Os na argraffwn ar eu meddwl wirioneddau ein ffydd pan y mae'r meddwl yn dyner, ac am hynny yn barottach i dderbyn dyfn argraffiad, ac os na chlymwn eu serchiadau at ein henwad yn awr pan y maent yn frwd ac yn fywiog, ni fydd gennym nemawr obaith y cymmerant ein lle yn yr eglwys pan fyddom ni wedi ymadel ar fychedd hon.

Gobeithio y gwnewn fel rhieni a chynnulleidfaöedd, gymmeryd y peth hwn yn fwy dan ein hystyriaeth. Ei bwysfawrogrwydd wnaeth i ni gymmeryd ein cennad i gynnyg yr ychydig sylwadau byr ac ammherffaith hyn i'ch sylw.

GAIR O BLAID CRIST.

Os bydd rhyw un am ddeall yn iawn egwyddorion Mahometaniaeth, y ffordd oreu i'r cyfryw, debygem, fyddai astudio yn ofalus gymmeriad ac athrawiaethau y sylfaenydd, sef Mahomet. Felly hefyd gyda golwg ar Iuddewaeth. Myfyrio Moses, ei phrif sefydlydd, ydyw y dull goreu i ddod i wybodaeth o'r grefydd Iuddewig. Os gwir hynyna, y mae yn canlyn yn naturiol mai y ffordd oreu i ddeall y grefydd Gristionogol yn iawn ydyw myned yn uniongyrchol at Grist, ydyw ystyried cymmeriad ac athrawiaeth ei sylfaenydd, sef yr Athraw mawr o Nazareth.

Yn awr gofynwn yn ostyngedig os mai y dull syml hwn a arfera y rhai a broffessant en bod yn iawn ddeall y grefydd Gristionogol, i ddod i wybodaeth o honi, a ydyw dysgawdwyr Cristionogol y presenol, a'r oesoedd a aethant heibio, wedi dysgu y grefydd a werthfawrogant ac a esponiant, gan Grist? Onid ydyw y byd yn hytrach drwy ystod y deunaw cant o flynyddau sydd wedi myned heibio, yn ymddrysu yn sŵn rhyw lu afrifed y fân ddysgawdwyr pa rai a hawliant fath o anffaeledigwydd i ddysgu Cristionogaeth yn annibynol ar Grist ei hun? Onid ydyw yr Eglwys Cristionogol wedi gadael ffynon y dyfroedd byw, yn ymgrwydro yn gibddall i ryw Sahara ysprydol? Os anghytunir o barthed i ryw bwnc Cristionogol, at bwy y mae yr *appeal?* At gymmanfaoedd, credoau, ac ymarferiadau eglwys. At farn rhai ag y cyfrifir iddynt olyniaeth Apostolaidd. At Bab, neu Archesgob, neu rywun heblaw Crist. Ymddibynir yn y cyffredin fwy ar yr hyn a ddywedir am Grist gan eraill, nac ar yr hyn a ddywed Crist am dano ei hunan. Felly y mae dynol draddodiadau a mympwyau dynion yn cymylu haul y grefydd ardderchocaf a welodd y byd.

Peth cyffredin, fel y gwyr pawb sydd yn gyfarwydd a chrefydd yr oes, ydyw priodoli anffaeledigrwydd i raddau mwy neu lai i bawb o brif Athrawn y grefydd Gristionogol, o Paul i lawr hyd yn ddiweddar. Y rheswm o hyn yn ddiau ydyw fod ysbrydolrwydd ac anffaeledigrwydd yn cael eu hystyried yn anwahanedg, fel pe byddai yn anmhossibl i ddyn fod yn ysbrydoledig heb fod yn anffaeledig. Ond pa lwyraf y myfyriwn epistolau y Testament Newydd, mwyaf eglur y canfyddwn nad oedd yr Apostolion eu

hunain, er ei bod yn ysbrydoledig, yn hawlio ei bod yn anffaeledig. O'r ochr arall, yr oeddynt yn neilldnol wyliadwrus rhag i'w gwrandawyr a'u heglwysi cyntaf feddwl y fath beth. Y mae Paul, pan yn ceryddu y gwahanol bleidiau yn eglwys Corinth, yn cyfeirio, nid at ei ysbrydolrwydd anffaeledig ei hunan, ond at Grist fel unig a gwir sylfaen athrawiaeth. "Pwy gan hyny ydyw Paul, a phwy Apostolos, ond gweinidogion trwy y rhai y credasoch chwi." "Canys sylfaen arall nis gall neb ei gosod heblaw yr un a osodwyd, yr hon yw Crist Iesu." Dywed hefyd wrth yr un eglwys, "Byddwch ddilynwyr i mi megys ac yr wyf finau i Grist;" neu mewn geiriau eraill, "Dilynwch fi mor bell ac y gwelwch fy mod i yn dilyn Crist." Yr oedd Paul yn ystyried Crist yn brif Athraw ei hunan, a'i Apostolion eraill yn ddysgyblion anfonedig, ond nid anffaeledig.

Ein dyledswydd ninau, gan hynny, ydyw barnu y gwas wrth y meistr, ac nid fel y mae y rheol yn gyffredin, farnu y meistr wrth y gwas neu y dysgybl. Nid barnu Crist wrth Paul, Pedr, Iago, &c.; ond eu barnu hwy wrth yr Athraw, gan gofio mai "Un yw eich Athraw chwi sef Crist, a chwychwi oll brodyr ydych." Os yw Paul yn "Galed i'w ddeall," os yw Paul, neu gyfieithwyr Paul, neu Pedr, yn gamsyniol, ein dyledswydd ydyw eu dal yn ngoleuni ysbryd egwyddorion Iesu, pa rai a eglurir yn yr efangylau. Fe wna iawn ystyriaeth o feddwl Crist ein galluogi i geryddu ysbryd un, ac adgyweirio cyfeiliornadau y llall. "Oh!" meddai rhywun, "Y mae yn ryfyg mwyaf ynom i bwyso a barnu yr hyn a ddywed yr Apostolion ysbrydoledig." Gwir mai dyna fel y mae y byd wedi arfer meddwl. Nid yn unig gyda golwg ar Apostolion, ond y mae wedi gosod y cyffelyb ffydd mewn Paban, Archesgobion, &c., &c., yn ddiddiwedd. Beth all fod yn rhyfygus mewn bod dyn yn arfer y farn bresenol sydd ganddo â pha un y mae wedi ei gynnysgaeddu gan yr Anfeidrol Dduw ei hun? Hefyd y mae yn gyfrifol am ei hymarferiad priodol. Yn hytrach na bod yn rhyfyg, y mae yn ddyledswydd pwysig. Hefyd os mai Crist ydyw sylfaen y grefydd Gristionogol, nid yn unig y mae hawl genym, ond ein dyledswydd gyda golwg ar bob pwnc perthynol i'r grefydd yma ydyw troi at Grist, yr un fath ac y gwnai Paul ei hunan, a gofyn yn ostyngedig iddo ef "Arglwydd pa beth a fynni di i mi eu wneuthur."

Pe buasai yr eglwys Gristionogol wedi cymmeryd ac yn cymmeryd y drafferth a hyfdra perffaith gyfreithlon o fyned heibio i bawb at Grist, a ydyw yn beth tebyg y celai yr Athrawiaethau poblogaidd o ddnwdod Crist, pechod gwreiddiol, cyfrifiad o gyfiawnder Crist i'r pechadur, a'r Athrawiaeth o iawn digonol yn aberth Crist, gymmaint lle yn meddyliau dynion? Ar Epistolau Paul* yn bennaf y sylfaenir hwy, ac nid ar Grist. A ydyw yn debyg y buasai y cyfryw athrawiaethau wedi sefyll eu tir hyd yn awr, pe cyfrifai dynion Iesu yn brif athraw. A phe bai y byd yn talu y sylw penaf i'r hyn a dywedodd ef, gan adael pawb eraill, hyd yn nod Apostolion, i eistedd, fel ac a byddent yn ddigon boddlawn wneyd, wrth ei draed ef? Yr oedd Paul yn ben saer celfydd, ond ni feddyliodd erioed osod sylfaen arall heblaw yr hon a osodwyd sef Crist, a rhybuddiai bob dyn yn ddwys i ofalu pa fodd yr adeiliadai ar y sylfaen yma. Pe

* Yn hytrach ar gamddeall ei Epistolau.—Gol.

celai geiriau Crist, fel ac y maent yn cael eu hesbonio gan ei fywyd, a bywyd Crist fel ac y mae yn arddangosiad o'r ysbryd sanctaidd, eu lle priodol yn ffurfiad barn eu ganlynwyr, rhoddid terfyn ar yr ymbleidio a'r ymrafaelu sydd yn rhy aml yn gwarthruddo yr efengyl.

Os myn rhywun fod yn gadwedig, aed at yr "Hwn sydd a geiriau y bywyd tragwyddol ganddo." Y mae ef ei hunan wedi egluro yr hyn oll sydd yn anghenrheidiol. Yn ei weddiau, yn ei bregeth ar y mynydd, yn ei ddamegion, yn ei amyneddgarwch, yn ei ddioddefaint, ac yn ei hunan-oberthiant, y mae wedi atteb y gofyniad yn gyflawn, "Pa beth sydd rhaid i mi ei wneuthur fel y byddwyf gadwedig."

Pob parch i bob un yn mhob man a eglura feddwl Iesu yn briodol. Derbyniwn gynorthwy da o ba le bynnag y daw, ond yr hytrach nac ymddyrysu yn swn mân ddysgawdwyr, awn at Grist, a gwnawn y goreu iedrom o'i eiriau ef, y prif Athraw, gan ddysgu ganddo.

I. T. W.

TALENT Y PLENTYN.

Mae Duw yn rhoi i bawb
Dalentau fwy neu lai;
Nid oes neb mor fach
Nad oes ganddo rai.

Y doeth a'r enwog ddyn,
Sy'n meddu'r nifer amlaf;
'Does genyf fi ond un,
Ond honno gwerthfawrogaf.

Cyn myn'd i'r nefoedd faith,
Duw'n siwr a ofyn imi;
A wneuthum i y gwaith
A rowd im' i'w gyflawni.

Dafnau bach o wlaw,
Sy'n dwyn y gorwych flodau;
Llawer, ddichon, ddaw,
Trwy'm gallu bychan innau.

Mae pob gronyn bach,
Yn help i wneuthur rhagor;
Yn help i daenu'r gwawl,
Yn help i chwyddo'r trysor.

CADW'R SABBATH.

"Y mae un yn barnu diwrnod uwch law diwrnod; ac arall yn barnu pob diwrnod yn ogyfuwch. Bydded pob un yn sicr yn ei feddwl ei hun."

"Am hyny na farned neb arnoch chwi am fwyd neu am ddiod, neu o ran dydd gwyl, neu newydd-loer, neu Sabbathau." Rhuf. xiv. 5; Col. ii. 16."

"George, beth yw'r llyfr yna sy genych?"

"Un o lyfrau D'Aubigne, nhad."

"Dodwch ef heibio, fy mab, cymmerwch eich Beibl, y Sabbath sanctaidd ydyw."

"Ond, O! nhad, y mae hwn yn dda! Y mae yn dywedyd am ddiwygiad, a'r Cristnogion, a'r erledigaethau; ac yr wyf yn cael *cymmaint* o ddyddordeb ynddo."

"Dodwch ef heibio, fy mab, dydd sanctaidd Duw ydyw; cymmerwch eich Beibl, neu eich llyfr hymnau, neu ynte eisteddwch yn llonydd i fyfyrio; y mae yn syfrdandod i'r meddwl i ddarllen pethau o'r fath."

"O! nhad, yr wyf—"

"Meindiwch fi, syr!"

Nid oedd un appel i fod oddiwrth y gorchymmyn a roddwyd felly mor sarug; felly darfu i George gyda chamrau brysiog, a gwyneb gwridgoch, a chalon ddigofus, osod heibio y gyfrol a garai, eithr nid i gymmeryd i fyny y Beibl. Yn lle hyny, brysiodd at *sofa* yn y pen draw i'r ystafell, a thaflodd ei hunan arni, yn drist-ddig, ac yn meddwl am feddyliau anghariaidd ei dad. "Nid yw efe yn malio dim am ddarllen!" meddai yn ei feddwl; "nid yw wedi darllen hanesyddiaeth erioed, nid yw yn gwybod mor dda yw, na chymmaint y mae dyn yn ddysgu oddi wrtho. Yr wyf yn ystyried ei fod yn gâs ynddo i beri i mi eistedd yma yn fud ac yn hurt—fel yr wyf—ac ni ddarllena i ddim o'r Beibl, oblegid nid yw efe byth yn ei esponio i mi. O'r anwyl, na allwn i fyned i gysgu."

Yr oedd Mr. Allen wedi edrych *round* un waith er gweled a oedd ei fab yn ufuddhau, ac wedi dywedyd "Peidiwch chwi a gadael y fan yna, syr," taflodd ei napcyn sidan dros ei lygaid drachefn, ac aeth i gysgu.

Diwrnod gwresog o haf ydoedd. Yr oedd y ffenestri oll yn agored, a thrwy ddau o honynt yr oedd y gysgodfa yn yr ardd yn ymddangos yn hyfryd ac yn ddeniadol iawn. "Pe buaswn ond wedi myned allan yna a'm llyfr," meddai'r bachgen, "ni fuasai byth yn fy ngweled; ac yr wyf yn *gwybod* nad oes dim drwg i ddarllen D'Aubigne. Yr wyf yn meddwl gofyn i'r gweinidog."

Gyda hyny dyma fwstwr mawr. A dyma Archy bach yn dyfod i mewn â'r gath fath a *box pasteboard*. Yr oedd Citi (y gath) yn rhedeg gyda llawenydd mawr, ac felly yr oedd Archy hefyd. Darfu i'w mwstwr ddihuno Mr. Allen.

"Beth yw hyna?" meddai efe yn sarug iawn.

"Fi a Cit, dada, edrychwch y mae Cit yn fy marchogaeth i i'r eglwys; cwyd, y gath," a dyna nhwy yn gyrru i ffwrdd drachefn.

"Stopiwch hyna, chwi fachgen drwg, tynwch yr *harness* oddi ar y gath fach, neu mi a osodaf y whip ar eich cefn yn o drwm hefyd. Fachgen drwg, oni wyddoch mai'r Sabbath sactaidd yw?

"Yr oedd Citi wedi blino eistedd ac yr oeddwn innau hefyd," meddai Archy, gan osod allan ei wefusau, a sefyll yn edrych yn brysur ar y gath, "all dim fod drwg yn hyna."

"Cerddwch a'r gath fach yna i maes!" meddai Mr. Allen, gan godi yn dra anewyllysgar oddi ar ei gadair, "ac wedi hyny deuwch yma ac eisteddwch ar y stôl yma, ac os cyffrwch o'r fan mi a'ch whipiaf yn dost, syr—O! ddrygioni cynnwynol plant!" meddai efe yn alarus gan ochmeidio rhyngddo a'i hun, "y maent yn cashau daioni. Nis gallaf wneud iddynt amgyffred mai *hwn yw dydd sanctaidd yr Arglwydd.*"

"Clywyd llais per yn canu yn yr ystafell nesaf, yn araf ac yn dyner y nofiai'r geiriau ar yr awyr—"Mae'n gwneud pob beth yn dda."

"Catharine!" meddai Mr. Allen.

A dyma ferch ifange yn gwneud ei hymddangosiad.

"Catharine, a oeddych chwi yn canu cân?"

"Yr oeddwn yn canu, 'Mae'n gwneud pob peth yn dda,' dada," oedd yr atteb pryderus.

"Nid dyna'r cwestiwn; a oeddych chwi yn canu cân?"

"Rwy'n coelio fy mod, syr, er mai rhywbeth o gân sanctaidd yw. Yr wyf yn caru'r gan yn fawr iawn."

"O ie, y mae'r meddwl cnawdol yn caru pob beth o'r fath," meddai Mr. Allen, yn afrywiog. "Carwn, Catharine, i chwi adael eich caneuon erbyn y gweddill o'r wythnos. Hwn yw dydd yr Arglwydd, cerddwch, canwch,

'Llydan ydyw'r ffordd sy'n arwain
Lawr i gyrrau'r distryw maith.'

O'r anwyl! yr wyf yn credu eich bod i gyd ar y llwybr llydan.

Diflanodd Catharine, ond ni ddaeth seiniau per, a syniadau tyner, yn hyfryd ac yn sanctaidd o'r ystafell arall; yr oedd y cwbl yn ddistaw, tra y dywedodd George wrtho 'i hunan, "Garw fel y mae nhad yn ceintach ar y Sabbath! Y mae'n ymddangos i mi mai ar y Sabbath y mae efe'n caru ymgynnenu fwyaf. Wn i yn y byd ai felly y mae cadw'r Sabbath?" Ac yr oedd Archy bach yn ymdorchi fel llysywen ar y sedd isel a appwyntwyd iddo gan ei dad, yn tynu ei glustiau, yn agor ei ben, ac o'r diwedd aeth i dynu'r dafedd o'i *frock* a gwneud mat o honynt.

"Wn i yn y byd, ble mae Mari?" meddai George rhyngddo a'i hun. "O'r anwyl!—fel'r wyf wedi blino."

Mary, och! yr oedd Mary ar y garret, wrth y *sky-light* ar ben y tŷ, yn darllen llyfr oedd wedi bod yn hir dan gudd, llyfr mor afiach ag oedd bossibl, llyfr dinystriol i bob moesoldeb.

"Nhad, a gaf fi fyned i rodio tipyn bach yn yr ardd," meddai George yn ostyngedig iawn. Yr oedd ei dad wedi gorphen ei hûn, ac yr oedd yn cerdded yn ol ac ym mlaen, dan ganu braich o ryw *dune* salm.

"Na chewch, syr; sawl gwaith yr wyf wedi eich gwahardd i ofyn i mi. Y tro nesaf, byddwch am fyned allan i'r allt, ac wedi hyny i'r afon a'r wialen bysgota. Hoffwn weled fy mhlant yn debyg i blant Major ar yr ochr draw i'r heol. Y maent hwy bob amser yn siriol ar y Sabbath, ac yn edrych fel pe baent yn caru'r dydd."

"Ond, syr, y mae Mr. Major yn ymddiddan â nhwy, ac nid yw—

"Ust, syr, dim o'ch sylwadau; y mae'n ddrwg genyf fy mod yn berchen ar fath fab anufudd—'nawr cerddwch, a dodwch eich hunan yn barod i fyned i'r eglwys, y mae'r clychau yn canu."

Yn falch i gael dianc, aeth George ar ffrwst i'w ystafell, a dilynodd Archy ef i ddangos *frock* wedi ei distrywio—canlyniad diwydrwydd wedi ei gamgyfeirio—i fam glaf.

Awn yn awr yn groes i'r heol ac i mewn at y teulu siriol yma. Y mae'r teulu, y rhan amlaf o honynt yn y *drawing-room.* Y mae Elly Major yn dwys-tyfyrio ar ryw lyfr sy ganddi hanner o'r golwg; Minnie yn eistedd wrth y piano, ac yn cyffwrdd a'r *keys* yn ysgafn. Y mae Henry yn lled-orwedd ar y *soja*, y mae'r fam a'r plant wrth wers o'r iawn ryw.

Yn ddisymmwth wele Mr. Major yn edrych ac yn gweled ei ferch ieuengaf yn llawn myfyrdod.

"Wel, Elly, beth sydd yn peri cymmaint o ddyddordeb i chwi, fy anwylyd?"

"Cochodd y ferch fach, ond attebodd yn union, O! nhad, 'Robinson Crusoe' ydyw—Rhoddodd Sarah Carter ei fenthyg i mi ddoe, ac y mae yn ddyddorol dros ben."

"Ydyw, fy anwylyd, llyfr hyfryd ac adeiladol ydyw; etto fe allai y gallasai fy merch i ddarllen rhywbeth yn well gyd â mwy o adeiladaeth heddyw."

Edrychodd y plentyn yn ddifrifol tuag at ei thad a gwenodd.

"Os ydych chwi yn ystyried hyny yn oreu, nhad, mi a ddarllenaf ryw beth arall."

"Yr wyf fi yn meddwl, gan fod y dydd hwn wedi ei osod at addoliad Duw, y byddai yn fwy llesiol i chwi i ddarlen eich Beibl bach."

"A eglurwch i e i mi, nhad?"

"Gwnaf, f' anwylyd."

Dododd Ellen ei llyfr o'r neillddu, ac aeth at ei Beibl, gan deimlo yn sicr y cawsai gydymdeimlad a chynnorthwy ei thad, os byddai angen arni.

"Henry, fy mab, yr ydych yn anesmwyth."

"Ydwyf, nhad; yr wyf wedi blino yn llwyr â gneuthur dim. Y mae fy mhen yn myned yn dost wrth darllen."

"Well, fy mab, byddai'n well i chwi i fyned allan i gerdded tipyn. Cerddwch ar hyd heol y cefn lawr at yr afon, a phan dychweloch, rhowch wybod i mi faint o brofion o daioni Duw yr ydych wedi ganfod. Y mae angen tipyn o *exercise* arnoch, ac yr ydych wedi bod yn fachgen da iawn heddyw. Minnie, blentyn, pam yr ydych chi'n peidio chwareu rhywbeth, neu ganu? Hoffwn yn fawr eich clywed yn canu 'Mair wrth feddrod yr Iesu.'" Yr oedd y ferch fach yn falch iawn i glywed ei thad yn gofyn am fiwsig, a chanodd y gân yn hyfryd iawn, tra'r oedd y lleill yn gwrandaw gyd a distawrwydd cymmeradwyol."

"Canwch 'nawr fy *favourite* arall i—'Mae'n gwneyd pob peth yn dda.'—mae'n hoff iawn genyf fi hwna."

"Yr oedd y miwsig yn syrthio ar yr awyr mor fwyn, a hyfryd ar hwyr y dydd Sul tawel hwnw; ac yr oedd yn ymddangos fel pe byddai angylion yn gwrandaw hefyd. Mr. Major dan wenu ar ei wraig, a ddywedodd yn dyner, "Diolch i Dduw!"

Yr oed ei llygaid hi yn llawn o ddagrau dedwydd. Nid oedd etto chwe

mis er pan oedd un o'n rhai bychain wedi canu'n iach iddynt, ac yr oedd y gân yma yn cyffwrdd eu calonau â'r cyffroadau mwyaf tyner.

Yr oedd y cwbl etto yn ddistaw, pan glywyd chwerthin uchel tu cefn i'r tŷ, ac yn y funud dyma Ally yn dod i mewn wedi ymwisgo yn moreuwisg ei dad, a spectal ar ei drwyn.

"Fy anwylyd," meddai Mr. Major yn ddifrifol. Dyna i gyd, ni wenodd neb. Edrychai'r un bach o amgylch mewn dyryswch mawr, taflodd ei wisg i lawr, a rhedodd tuag at freichiau agored ei dâd.

'Rwy'n meddwl y gallwn ni wneuthur rhywbeth yn well na gwisgo yn y fath ddull gwrthun yna heddyw. "A ydych chwi ddim yn meddwl hyny, Ally?" gofynai Mr. Major.

"Ydwyf, syr," meddai'r bychan, mewn llais isel, etto yn nythu ei ben bychan cudynog yn mreichiau ei dâd.

Mewn llais mwyn, tawel, adroddodd y tad stori Samuel bach, gan ogluro wrth fyned yn y blaen, ufudd-dod pur y plentyn sanctaidd, ac uwch law pob peth ei barch i Dduw a'i ordinhadau appwyntiedig.

O, 'roedd hyn yn llawer gwell na cherydd, ac er ifangced oedd, yr oedd y plentyn yn ei deimlo; a dysgodd wers, yr hon ni fuasai yn fuan yn ei hanghofio.

Yr oedd y clychau'n canu. Dychwelodd Henry, ac ymddangosai yn *fresh* ac yn fywiog. Yr oedd y merched i gyd yn barod i fyned i'r cwrdd.

"Wel, fy mhlant, a ydych chwi wedi treulio Sul wrth eich bodd?" gofynai'r tad.

Llygaid bywiog a thafodau parod a attebasant—"Ydym."

Boreu Dydd Llun.—*Yn Swyddfa Mr. Allen.*—"Syr, oni fydd i'r arian yma i gael eu talu, mi a'ch amddifadaf o bob peth a feddwch. Gwarthus—osgoi oddiwrth ddyled onest yn y fel hyn.

"Ond Mr. Allen, yr wyf wedi bod yn glaf,—y mae fy ngwraig a fy"—

"Hên stori, hên stori, syr; cerddwch i fegian, neu i fenthycia'r arian —neu—yr ydych yn fy adnabod i."

Boreu Dydd Llun.—*Yn Swyddfa Mr. Major.*—"Y mae arnaf gywilydd i ofyn am ohiriad, Mr. Major, ond yr wyf yn greulawn o dlawd *just* yn awr. Os caniatewch i mi ychydig yn rhagor o amser"—

"Yn sicr, Mr. May, clywais bregaith efengylaidd ddoe, ar y rheol auraidd. Gwnewch eich goreu drosof, a byddaf yn foddlawn."

Esgynodd gweddiau y dyn diolchgar yma tua'r nef.

Examiner.

I BLANT YR YSGOL SABOTHOL.

Y Llyfr nesaf, blant, yw Ruth. Llyfryn ydyw—dim ond pedair pennod. Fel Llyfr y Barnwyr, ac amryw eraill, ni wyddys pwy ydyw'r awdwr. Tybia rhai mai Samuel ydyw. Dichon y mae, neu ryw un o ysgol y

prophwydi. Ond gan nad pwy ydyw'r awdwr, llyfryn yw ag sydd yn llawn adeiladaeth i'r darllenydd ystyriol. Rhodda gip-olwg i ni ar ddull dynion o fyw yn amser y Barnwyr, oblegid dyna amser Boaz a Ruth. Beth oedd dyben yr awdwr yn ysgrifenu yr hanes, anhawdd yw dyweyd. Tybia rhai mae ei ddyben oedd dangos fel y daeth menyw o ach estronol, ac o isel radd, trwy ei hymddiried yn Nuw Israel, i fod yn fam yn nheulu Dafydd, y godidoccaf o holl frenhinoedd yr Hebreaid. Meddylia eraill mai ei ddyben oedd *anrhydeddu* ty y brenin er fod ei hen deidau o ddechreuad cyffredin. Tueddir ni weithiau i feddwl mai y dyben oedd ceisio darbwyllo Dafydd, pan oedd yn rhyfela â'r Moabiaid, i beidio bod yn rhy galed arnynt, gan ystyried mae Moabiad oedd ef ei hunan o ran ei fam. Hanes teulu yw'r llyfr, a fudodd i Moab o wlad Canaan oherwydd newyn a ddigwyddodd yno, medd rhai, yn amser Eli. Ni wyddys yn iawn pwy oedd farnwr yn Israel pan gymmerodd y mudiad le. Parhaodd y newyn oddeutu deng mlynedd. Elimelec oedd enw y gwr, a Naomi oedd ei wraig. Iddynt oedd dau fab, Mahon a Chilion. Priodasant wragedd o'r Moabeesau. Enw un oedd Orpah, a'r llall Ruth. Bu farw Elimelec a'i ddau fab, a Naomi a'i dwy ferch-yn-ghyfraith a adawyd yn amddifad yn Moab. Penderfynodd yr hen wraig ddychwelyd i Bethlehem, ei lle genedigol, oblegid clywodd fod yr Arglwydd wedi ymweled a'i bobl a rhoddi iddynt fara. Mynnai ddarbwyllo ei merched-yn-ghyfraith i aros yn eu gwlad eu hunain, Moab. Cymerodd Orpah ei darbwyllo i aros, ond nid oedd y fath beth a darbwyllo Ruth. Glunodd wrth ei mham-yn-ghyfraith ar waethaf pob rhwystrau. "Nac erfyn arnaf fi," ebe hi, "ymadel â thi, i gilio oddiar dy ol di: canys pa le bynnag yr elych di, yr af finnau; dy bobl di fydd fy mhobl i, a'th Dduw di fydd fy Nuw innau; lle byddech di marw, y byddaf finnau farw, ac yno y'm cleddir." Daeth, gan hynny, gyda ei mham-yn-ghyfraith i Bethlehem. Yr oeddynt eill dwy yn dylawd ac yn amddifad, ac yn ddigon tebyg yn dioddef eisiau lluniaeth Yr oedd yn byw yn y gymmydogaeth berthynas agos i Elimelec, o'r enw Boaz. Yn amser y cynheuaf, ceisiodd Ruth gennad i fyned allan i loffa. Tebygol yw fod ymddiddan wedi bod rhyngddynt cyn hyn am Boaz, ac i Naomi hysbysu i Ruth mai perthynas agos ydoedd i Elimelec ei gwr. O'r hyn lleiaf, aeth yr eneth i loffa i faes Boaz. Canfu Boaz hi, a gofynodd i'w was pwy oedd y llangces. Dywedodd hwnnw mai llangces o Moab ydoedd, wedi dyfod oddi yno gyda Naomi i Bethlehem. Gallwn gasclu ei bod yn eneth o edrychiad lled hardd er ei bod yn dylawd, oblegid nid i'r cyfoethogion yn unig y perthyn harddwch bryd a gwedd. Darfu i Boaz holi rhagor yn ei chylch. Clywodd mor garedig oedd i'w mham-yn-ghyfraith. Cafodd ffafr yn ei olwg, a chaniatad ganddo i loffa ar ol y medelwyr, a bwyta a yfed gyda hwynt. Gorchymynodd hefyd i'r llangciau na chyffyrddent a hi. Diolchodd yn fawr iddo am ei garedigrwydd, a rhyfeddai paham y cafodd ffafr yn ei olwg, ac y cymmerodd gydnabod arni, a hithau yn alltudes. Dywedodd Boaz ei fod wedi clywed y cyfan am dani, sef yr hyn oll a wnaeth ar ol marwolaeth ei gwr i Naomi, ei chwegr; fel y gadawodd hi ei thad a'i mham, a gwlad ei genedigaeth, ac y daeth i fynu at bobl nid adwaenai o'r blaen. Dyma paham yn fwyaf neillduol yr oedd wedi cael ffafr yn ei olwg. Pan ddychwelodd yn yr unwyr at ei mham-yn-ghyfraith, adroddodd wrthi fawr garedigrwydd

Boaz. Digon tebyg i Naomi ddeall fod ei chân wedi ymserchu yn yr eneth, ac iddi ei dysgu hi pa beth i'w wneuthur er mwyn cael gan Boaz i'w phriodi. Dywedodd wrthi am ymolch, ac ymiro, a gosod ei dillad am dani, a myned i waered i'r llawr dyrnu, ond gorchymynodd iddi am beidio gwneyd ei hunan yn gydnabyddus i'r gwr nes darfod iddo fwyta ac yfed, "yna pan orweddo, dos," ebe hi, "a dinoetha ei draed a gorwedd; ac efe a fynega i ti yr hyn a wnelych." Ystyrid hyn yn beth anweddaidd yn ein gwlad ni, ond nid felly yn Canaan. Pa fodd bynnag, llwyddodd yr ystranc. Addawodd Boaz i'w phriodi os na wnai perthynas agosach i'w gwr, ac i deulu Elimelec, gleimo hawl iddi, ac i'r etifeddiaeth a berthynai iddynt. Attebodd hwnnw nad oedd ganddo ef un bwriad gleimo ei hawl yn Ruth, ac nas gallasai ryddhau yr etifeddiaeth pe dewisai. Dywedodd fod cyflawn roesaw i Boaz wneuthur pob un o'r ddau. Yr ystyr yw hyn:—Yr oedd Elimelec wedi gwerthu ei hawl yn ei ystad neu etifeddiaeth ei dylwyth hyd flwyddyn y Jubilee, oblegid yn y flwyddyn honno, a ddigwyddai oddeutu pob hanner can mlynedd, yr oedd pob tir i ddychwelyd i'w berchenog cyntefig os byddai byw, neu yntau i'w berthynas agosaf. Fel y dywedwn ni yn y wlad hon, yr oedd Elimelec wedi codi *mortgage* ar ei etifeddiaeth hyd flwyddyn y Jubilee. Gwnaeth etifedd Elimelec lw i Boaz, trwy roddi iddo ei esgid, yn ol arfer y wlad, na fuasai efe ddim ar y Jubilee yn cleimo ei hawl i etifeddiaeth Elimelec, ac nad oedd ganddo ef un bwriad, fel y perthynas nesaf, i briodi Ruth. Y canlyniad fu i Boaz ryddhau yr etifeddiaeth trwy dalu i fynu y gwystl ag oedd Elimelec wedi godi ar y tir, a chymeryd Ruth y Moabees yn wraig iddo. Mae i bob gwlad ei dull ei hun o briodi. Chwi welwch yn y bennod ddiweddaf o Ruth mai y dull y pryd hwnnw yn Canaan oedd i'r hwn fyddai ar fedr priodi fyned i borth i ddinas, lle y trafodid pob achosion gwladol, a chyhoeddi yno i drigolion y dref ei fod ef wedi prynu hon a hon yn wraig, a galwai ar bawb ag oedd yn bresennol i fod yn dystion o'r ffaith.

Er mae un bychan yw llyfr Ruth, mae rhyw beth ynddo ag sydd yn adeiladol anghyffredin. Mae wedi ei ysgrifenu hefyd gyda'r fath symlrwydd ag sydd yn creu ynom, yn ddiarwybod i ni braidd, argyhoeddiad o wirioneedd yr hanes. Darllenwch ef, blant, yn fanol. Sylwch ar gyfyngder Naomi; ei gofal cariadus am ei merched-yn-ghyffraith; ymadawiad anfoddol Orpah; gluniad serchfawr Ruth wrth ei chwegr; y dychweliad trist i Bethlehem; haelioni Boaz; a'i ymddygiad carnaidd at y medelwyr. Mae'r pethau hyn yn dra addysciadol. Onid oes rhyw beth sydd gariadus iawn yng ngwaith Boaz yn annerch ei weision, ac yn eu hatteb hwythau! "Yr Arglwydd a fyddo gyda chwi," meddai y meistr, a'r gweision yn atteb "Yr Arglwydd a'th fendithio dithau." Pe ffynnai mwy o'r ysbryd hwn rhwng y meistri a'u gwasanaethynion yn y wlad hon, ni fyddai cymmaint o achos i achwyn gau y naill ar y llall. Mae meistri a meistresi da yn gwneyd hyd yn od wasanaethynion canolig yn llawer gwell. Yr atteb traws a'r gair sarrug sydd yn creu anutudd-dod ac anghariad. Bydded mwy o ysbryd Boaz a'i fedelwyr yn ein plith.

Nid ydym yn foddlon diweddu, blant, heb eich annog i ganlyn siampl Ruth yn eich ymddygiad at eich rhieni. Gwelwch fel yr oedd yn gwneuthur a allai i gynnorthwyo yr hen wraig dylawd ac ymddifad yn

ei henaint a'i methiant. Byddwch chwithau, blant, yn dyner i'ch rhieni, p'un ai tylawd ai cyfoethog fyddont. Peidiwch, er dim, a throi eich cefnau arnynt, yn enwedig yn eu henaint. Os byddant yn dylawd, gwnewch eich goreu fel na ddioddefont eisiau yn eu hen oedran. Cofiwch iddynt hwy ofalu am danoch chwi pan oeddych yn rhy wan i wneuthur dim drosoch eich hunain. Bu eu gofal yn dyner am danoch. Maent hwythau yn awr wedi ffaelu, ac yn rhy wan i wneyd dim drostynt eu hunain, dyledswydd yw arnoch i dalu yn ol iddynt, ac i ddiolch i Dduw ei fod yn rhoddi i chwi y cyfleusdra. "Anrhydedda dy dad a'th fam fel yr estyner dy ddyddiau ar y ddaear."

Wele yn canlyn, blant, ychydig o ofyniadau o'r Ysgrythyr. Attebwch hwynt erbyn y delo rhifyn nesaf o'r YMOFYNYDD i'r Ysgol. Câ yr ysgolhaig yr hwn a attebo fwyaf o honynt glod, os na cha wobrwy.

1. Chwiliwch yn yr Ysgrythyr am bedwar engraifft o gydwybodolrwydd yn ymorthod a bwyd gwaharddedig.
2. Enwch rai gweithwyr a goffeir am danynt o herwydd eu ffyddlondeb a'u honestrwydd.
3. Enwch wyth o bersonau a sonir am eu cywirdeb yn y Testament Newydd.
4. Chwiliwch allan saith o lefydd lle mae'r Apostol Paul yn gwirio ei gywirdeb.
5. Chwiliwch am dri engraifft o gywirdeb mewn goruchwyliaeth ar feddianau eraill.
6. Pwy yw hwnnw yn yr Hen Destament, uniondeb yr hwn a addefwyd pan y rhoddodd i fynu ei swydd?
7. Rhoddwch engraifft o gywirdeb gyda golwg ar feddianau gwr goludog, yr hwn gywirdeb a ddrwg-wobrwywyd ganddo.
8. Pwy frenin paganaidd gydnabyddodd gywirdeb un o frenhinoedd Israel?
9. Enwch dri dyn a appeliasant at eu diniweidrwydd a'u huniondeb, yn erbyn y sawl a'u gwrthwynebent.

Atebion a Gofyniadau.

MYFYRIWR.—Da gennym glywed ein bod yn eich boddloni yn yr esboniadau sydd wedi bod tan ein sylw. Yr ydych yn awr yn gofyn ein meddwl ar yr adnod yn Ioan (x. 30), y'nghylch yr undeb rhwng Duw â Christ. Eich barn chwi yw mai undeb *personol* sydd yma i ddeall, a dyma, yn ddiau, y meddwl poblogaidd. Yr athrawiaeth gyffredin yw mai nid dau *berson* neu *fod* gwahanol oeddynt, ond mai un person oedd iddynt eill dau, er hynny, yr oeddynt yn ddau *fod*. Dau fod ydynt, er mai un bod, un person, un sylwedd ydynt! Yr ydym yn addef nas gallwn ddirnad eich meddwl. Ai eich meddwl yw mai un Bod yw y Tad

a'r Mab a'r Ysbryd Sanctaidd tan wahanol enwau? Os hyn ydyw eich meddwl, Sabelian ydych, ac nid Trindodwr, ta waeth am hynny. Onid er mwyn egluro ein meddyliau wrth ein gilydd y cynnysgaeddwyd yr hil ddynol a thafod-iaith? Os dyna'r dyben, rhowch ryw feddwl i ni y'nghylch yr undeb sydd yn eich tyb. A ydych chwi, yn brysur, yn meddwl fod yn bossibl i ddyn i ddirnad, yn ol natur pethau, pa fodd y gall dau neu dri, neu ragor, o wahanol fodau, fod yn un person? Yr un peth fyddai dyweyd mai un dyn yw tri dyn, un haul yw tri haul, un peth yw tri pheth. Nid fel hyn mae dynion yn ymresymu yn eu mysnach wladol. Ni fyddai neb mor wirion a chredu y gwnai un bunt y tro yn lle tair. Mae yn ammhosibl i'r CREAWDWR MAWR EI HUN wneyd un bod yn dri bod, neu un rhyw wrthrych bynnag yn dri gwrthrych. Mae DUW yn Hollalluog, ond y mae felly yn unig mewn pethau sydd ddichonadwy. Peth dichonadwy yw creu byd, creu dyn, adferu bywyd mewn ffordd a eilw dynion *yn wrthiol*, neu mewn ffordd wahanol i un rhyw brofiad sydd gennym ni. Nid oes dim sydd yn wrthyn yn y fath weithrediad. Ond peth gwrthun, peth sydd ynddo ei un yn ammhosibl, yw gwneyd un person yn rhagor nac un person, neu un bod i fod yn rhagor nac un bod. Ac os ydyw y peth yn ammhosibl mewn creadigaeth, mai yn beth ammhosibl i Dduw, ac *yn* Nuw. Am hynny nis gall efe ei hun fod yn rhagor nac un Bod neu berson, a synnai dynion wrth y fath iaith, oni bai eu bod wedi arfer siarad yn y dull hwn am y Duwdod. Maent yn dysgu gan y naill a'r llall, heb feddwl dim y'nghylch ammhosibilrwydd y peth.

"Beth ynte," meddai rhyw un, "yw meddwl y geiriau "Myfi a'r Tad, un ydym." Mae y dywediad yn eithaf dealladwy. Nid oes dim eisiau i chwi, er mwyn deall eu meddwl, ond ymddihatru oddiwrth ddryswch y credoäu. Darllenwn ymadrodd tra chyffelyb yng ngweddi Crist (Ioan xvii. 21), "Fel y byddont oll yn un, megis yr wyt ti y Tad ynof fi, a minnau ynot ti, fel y byddont hwythau *yn un ynom ni*." Chwi addefwch mai nid un person sydd i ni ddeall yma, onite mae yn y Duwdod ragor na thri pherson, oblegid gyda pherson Crist mae personau yr Apostolion ynddo. Defnyddia yr Apostol Paul hefyd eiriau cyffelyb yn 1 Cor. iii. 8. "Eithr," medd efe, "yr hwn sydd yn plannu, a'r hwn sydd yn dwfrhau, *un ydynt*." Nid ydym i ddeall mai un person ydynt. Undeb moesol ac ysbrydol feddylia'r Apostol. Yr oedd y ddau Apostol yn un mewn bwriad, mewn ymdrech, yng ngwaith eu Meistr Mawr, yr Arglwydd Iesu Grist. Felly, hefyd, yr oedd Crist a'r TAD yn un yn yr ysbryd. Y sawl ydynt yn gweled neu yn adnabod yr Iesu ydynt yn gweled neu yn adnabod y Tad, oblegid, fel y dywed yr Apostol, *Delw y Duw anweledig* ydyw. Undeb YSBRYDOL ydoedd. Undeb mewn cariad ac ewyllys da i ddynion. Mae'r un fath undeb hefyd yn bodoli rhwng yr Iesu a phawb sydd yn ei adnabod, yn ei garu, ac yn teimlo ei bresennoldeb gyda hwynt yn ei ddylanwad ysbrydol. Maent yn un â'r Iesu mewn enaid, mewn serch, mewn cariad. Efe yw eu harweinydd at y Tad—y ffordd, y gwirionedd, a'r bywyd—teimlant mai efe yw'r adgyfodiad, ac y bydd i'r sawl a gredant ynddo gael byw, er iddynt farw yn y fychedd hon. Undeb cariad ydyw ag nas gall dim ei dorri. Teimlai Paul ef. "Pwy a'n gwahana ni," medd efe, "oddiwrth gariad Crist, ai gorthrymder, neu ing, neu ymlid, neu newyn, neu noethni, neu enbydrwydd, neu gleddyf?

Eithr yn y pethau hyn oll yr ydym yn fwy na choncwerwyr trwy yr hwn a'n carodd." Ni a'ch cynghorwn, wrth ddiweddu, i ymdrechu ymddattod oddiwrth athrawiaethau cnawdol y credoau, y rhai sydd yn gwanhau gallu yr Efengyl er iachawdwriaeth, ac yn diraddio'r Arglwydd Iesu Grist. Anhawdd yw gwneuthur hyn rhaid addef, oni roddwch eich hun i fyny (*abandon yourself*) i Grist i gymmeryd eich harwain a'ch dysgu ganddo, ac nid gan y credoau, fel yr ydych wedi arfer.

Mr. Golygydd,—Yr ydwyf finnau hefyd wedi bod yn *beddrau* fy mhen yn chwilio y gofyniad rhifyddol yn Rhifyn Mai. Tybied wyf fod "a'i ychwanegu at yr drydedd ran o hono," neu ryw eiriau cyffelyb, wedi cael eu gadael allan o'r gofyniad rywfodd neu gilydd, oblegid os yr ychwanegir y drydedd ran at *scwar* 27 wedi ei leihau â'r nawfed ran, bydd y rhif, fel y dywedir yn y gofyniad, yn 891.

Os ydwyf wedi tybied yn iawn, bydd y gwaith mewn rhifyddiaeth bur fel y canlyn:—

Cymmerer $\frac{1}{9}$ allan o 1, a bydd y gweddill yn $\frac{8}{9}$. At y gweddill ychwaneger $\frac{1}{3}$ neu $\frac{3}{9}$, a bydd y swm yn $\frac{11}{9}$. Y peth nesaf yw cael allan y rhif fel os y lluosogir ei *scwar* â $\frac{11}{9}$, bydd y cynnyrch yn 891, yn ol y gofyniad, fel hyn:—

$$11 : 9 :: 891 : 729.$$

y rhif gan hynny yw 729, a 729 $\times$ $\frac{11}{9}$ yw 891, neu y rhif yn y gofyniad. *Square Root* 729 yw 27, neu oedran y ferch ieuanc pan fyddo yn dyfod i'w phriodi. Y prawf yw $729 - \frac{729}{9} + \frac{729}{3} = 891$.

PHILOMATHES.

[Yr ydych wedi tybied yn iawn. Pa fodd y gadawyd allan y frawddeg, nis gwyddom. Rhaid bod yn fwy gofalus. Yr oeddym wedi canfod y gwall cyn i'ch atebiad chwi ddyfod i law.—Gol.]

A. M.—I atteb eich gofyniad, nis gallwn wneyd yn well na gosod o'ch blaen y flwyddyn o oed Crist yr ysgrifenwyd yr Epistolau, ac o ba leoedd yr ysgrifenwyd hwynt, yn ol barn *Doctor Lardner*.

Epistolau.	Lleoedd.	Oed Crist.
1 Thessaloniaid	Corinth	52
2 Thessaloniaid	Corinth	52
Galatiaid	Corinth, neu Ephesus, yn agos i ddiwedd	52
1 Corinthiaid	Ephesus, tua dechreu	56
1 Timothy	Macedonia	56
Titus	Macedonia, cyn diwedd	56
2 Corinthiaid	Macedonia, oddeutu Hydref	57
Rhufeiniaid	Corinth, oddeutu Chwefror	58
Ephesiaid	Rhufain, oddeutu Ebrill	61
2 Timothy	Rhufain, oddeutu Mai	61
Philippiaid	Rhufain, cyn diwedd	62
Colossiaid	Rhufain, cyn diwedd	62
Philemon	Rhufain, cyn diwedd	62
Hebreaid	Rhufain neu Italy, yn Ngwanwyn	63

Nid ydym ni yn gallu credu mae'r Apostol Paul yw awdwr yr Epistol at yr Hebreaid. Rhwyddach genym gredu mai Clemens Romaus yw'r awdwr. Cynnwys ei epistolau cyntaf at y Corinthiaid frawddegau ag sydd air y'ngair yr un peth â rhai yn yr Epistol at yr Hebreaid. Gwel gwahan-nod 36, yn yr epistol cyntaf. Mae yn anhawdd genym hefyd gredu y buasai yr Apostol Paul yn defnyddio *argument* yr Epistol hwn. Dyben yr awdwr, pwy bynnag ydoedd, yw ceisio cymmodi yr Iuddewon â'r grefydd Gristionogol, trwy ddangos fod Iesu Grist ynddo ei hun yn offeiriad ac yn offrwm. Yr oeddynt hwy erioed wedi arfer ag offeiriad, allor, offrwm, teml; ond yn addoliad y Cristionogion nid oedd dim o'r pethau hyn. Yr oedd hyn yn dramgwydd i'r Iuddewon, ac ymdrecha'r awdwr ei symmud, trwy ddangos, os nad oedd ganddynt deml ddaearol, fod ganddynt un nefol, os nad oedd ganddynt offeiriad ac offrwm, fod Iesu Grist yn bob un o'r ddau. Os nad oedd yn offeiriad o lwyth Levi, ei fod yn offeiriad yn ol urdd Melchisidec, yr hwn oedd yn offeiriad, er nad oedd ei dad na'i fam yn perthyn i'r teulu offeiriadol. Cysgodau, medd, oedd seremoniau addoliadol y deml, a Iesu Grist oedd y sylwedd. Nid dyma ddull yr Apostol o ymresymu â'r Iuddewon. Nid yw efe yn un man yn gwneyd defnydd o'r fath *argument*. Rhaid addef fod yn yr Epistol hwn addysgiadau ag sydd wedi bod yn fendith i Eglwys Crist, er hynny, ymddengys i ni fod twyll-ymresymiad mewn cydmaru Crist i offeiriad, offrwm y deml, &c., *argument* nad oes dim o'i eisiau ar Gristionogrwydd, ac un ag sydd wedi gwneuthur niwed nid bychan iddi. Ym mhlith y drygau a wna, rhydd annogaeth i ddynion fel y pabau, a'r Defodwyr (*Ritualists*) yn yr Eglwys Sefydledig, i droi y cymmundeb o fod yn ordinhâd goffadwriaethol am farwolaeth Crist, i fod yn offrwm cyssegredig i Dduw, a thrwy hyny i gyfnewid y gweinidog o fod yn was a chynnorthwywr yr eglwys, i fod yn offeiriad, ac yn feistr ar ei frodyr—un sanctaiddiach na hwy wedi ei gynnysgaeddu a'r dawn gwyrthiol i roddi maddeuant pechodau i ddynion, ac i gyfnewid elfenau y cymmun o fod yn fara a gwin, i fod yn wir gorph a gwaed Crist. Nid yw awdwr yr Epistol at yr Hebreaid, mae'n wir, ddim yn attebol am y llygredd hwn; ond y mae ei *argument* yn y llythyr yn rhoddi esgus ac awdurdod Apostolaidd i ddynion uchelfrydig i osod i fynu yn Eglwys Crist y gyfundraeth offeiriadol, yr hon sydd groes a niweidiol i egwyddorion yr Efengyl. Oherwydd y rhesymau hyn, a eraill a ellid enwi, pe caniatai amser, nid ydym yn credu mai'r Apostol Paul yw'r awdwr.

T. Llwyd, o R—n, (Rhif 4).—I ddeall yn iawn beth sydd i feddwl wrth *Draddodiad yr Hunafiaid*, dylid sylwi fod gau yr Iuddewon ddwy gyfraith, un yn ysgrifenedig ym Mhum Llyfr Moses, a'r llall yn un a draddodid o genhedlaeth i genhedlaeth trwy *air genau*. Dywedent i Moses dderbyn y ddwy gyfraith yr un pryd ar y mynydd. Esboniad ar y gyfraith ysgrifenedig oedd yr un draddodiadol. Dywedent hefyd i Moses, ychydig cyn ei farwolaeth, adrodd wrth Joshua y *gyfraith enwol*, i Joshua ei thraddodi i wyr y Synagog Fawr, y diweddaf o'r hon oedd Simon y Cyfiawn. Traddododd Simon hi, meddant, i Antigonus Sochaeus, ac yntau i'w olynwyr, sef y Doethion. Swydd y Doethion oedd ei dysgu i'r bobl. Dyma fel, yn ol yr hanes sydd gennym, y traddodwyd y

gyfraith eneuol o Moses i lawr i'r Doethion. O'r diwedd, darfu i'r Rabbiniaid grynhoi holl draddodiadau y gyfraith hon, a'u hysgrifenu mewn llyfr a elwir y *Mishna*. Ystyr y gair yw *ail-adroddiad*. Yn mhen amser gwnaethpwyd esboniad ar y *Mishna* gan Rabbiniaid ag oeddynt yn byw oddeutu Babylon. Gelwir yr Esboniad *Gemara*. Mae y ddau lyfr hyn, sef y *Mishna* a'r *Gemara* yn gynnwysedig yn y peth a elwir y *Talmud* arno. Y corph-lyfr, neu'r text, yw'r *Mishna*; y *Gemara* yw'r esboniad, a chrynhodeb o'r traddodiadau ac o'r esboniadau arnynt hwy ac ar y gyffraith ysgrifenedig ydyw y *Talmud*.

Dyma ddrychfeddwl i chwi ar y peth a elwir yn yr adnod y cyfeiriwch atti yn eich gofyniad, ac mewn mannau eraill o'r pedair Efengyl, sef "*Traddodiadau yr Hunafiaid*." Mae gan yr Iuddewon, neu yr oedd ganddynt, lawer mwy o barch i'r traddodiadau nac i'r gyfraith ysgrifenedig. I ufuddhau i'w traddodiadau y golchent yn fynych ystenau, cwpanau, llestri pres, a byrddau, yr ymburent hefyd wedi dod o'r farchnad a'r daulendy, ac y golchent eu dwylaw cyn bwyta. Yn y cyflawniad o'r pethau hyn yr oeddynt yn ofalus anghyffredin. Gosodent lawer mwy o bwys ar y cyflawniad o honynt nac ar weithredoedd moesol, a dyma lle yr oedd y drwg. Dywedent fod yr hwn a fwytai heb olchi ei ddwylaw yn gyntaf yn cyflawnu cymmaint o bechod *a phe gorweddai gyda phuttain!* Dyma athrawiaeth yr Ysgrifenyddion! Dysgent orchymynion dynion, sef y traddodiadiadau i'r bobl, yn lle cyfraith Dduw. Cyfeiria yr Iesu at un addysgiad yn neillduol, sef y'nghylch y *Corban* mewn cyssylltiad â rhieni. "Ac meddwch chwithau," sef yr Ysgrifenyddion, "Os dywed dyn wrth eu dad neu ei fam, Corban, hynny yw, Rhodd, trwy ba beth bynnag y ceit lês oddiwrthyf fi; *difai fydd*." Marc vii. 2. Nid oedd y frawddeg yn meddwl fod y mab aunhrugarog a chalon-galed wedi cyssegru ei feddianau i wasanaeth Duw, nac ychwaith yn ei rwymo i wneuthur hynny, ond yn unig ei fod trwy ddyweyd "Corban" wrth ei rieni tylawd yn esgusodi ei hun i beidio cyfranu dim o'i feddianau at eu cynhaliaeth Dysgai yr ysgrifenyddion ddynion i ymddwyn yn y modd hwn at eu rhieni, a phawb eraill, ar awdurdod traddodiad yr hunafiaid. Dysgent fod dyweyd "Corban" wrth y neb a geisiai ffafor gan arall, yn addunedu i Dduw, nas gallasai y sawl a'i gwnai ei thori, oni fyddai iddo yn gyntaf gael rhyddhad o'r addunedau gan yr offeiriad. Dyma fel y gwnelai yr Ysgrifenyddion gyfraith Duw yn ddirym trwy eu traddodiadau. Ai rhyfedd gan hynny fod yr Iesu yn cyhoeddi gwae uwch ben y dynion rhagrithiol a drygionus hyn? Yr ydym yn gorfod bod, o angenrheidrwydd, yn fyr; gobeithiwn er hynny y gwna'r eglurhad hwn daflu peth goleuni i chwi ar *Draddodiad yr Hunafiaid*.

Gwladgarwr.—Ymddengys i ni fod eich golygiadau yn eithaf cywir. Credu ydym fod yn ddyledswydd anhepgorol ar weinidogion yr Efengyl ymdrechu goleuo eu cynnulleidfaöedd y'nghylch eu breiniau gwladol yn gystal a chrefyddol. Dal dedwyddwch a ffyniant dyn yn y bywyd hwn gyssylltiad agos â'r bywyd i ddôd. Ceisia Trindodiaeth eu dadgyssylltu, ond ni lwydda, oblegid trefn Duw ydyw. Mae yn gyflawn bryd i'r hen dyb nad oes a wnelo gweinidog yr Efengyl â gwlad-lywodraeth, roddi lle i olygiadau goleuach. Anhawdd dirnad gymmaint o ddrwg mae'r dyb

gyfeiliornus hon wedi gwneuthur i Gymru. Pe cymmerasai Gweinidogion Cymru fwy o drafferth i addyscu eu gwrandawyr yn eu breiniau gwladol, cynnrychiolasid ni y dydd heddiw yn well yn y Senedd. Buasai gennym Ymneillduwyr yno, ac aelodau yn cynnrychioli y trigolion, ac nid y tir, a'r da, a'r defaid. Edrychwch ar aelodau presennol Cymry yn y Ty. *Dummies* ydynt oll. Nid oes un a feiddia agor ei ben yno, na dyweyd gair dros eu gwlad. Nid oes un Ymneillduwr ychwaith yn eu plith er mae gwlad Ymneillduaeth ydyw Cymru. Bu yno un Ymneillduwr flynyddau yn ol—y diweddar Mr. Coffin, o Landâf. Nis gwyddom ni ddim am neb Ymneillduwr o Gymru a fu yno byth wedi'n. Mae yn ein gwlad ddynion mor alluog, yn ddiammeu, i drafod materion Seneddol ag sydd gan y Saeson, ond ni chant eu hethol o herwydd meistri Toryaidd y tir, y rhai a osodant y "*screw*" yn ddidrugaredd ar eu deiliaid. Anfontais i les gwlad yw fod y tir ym meddiant ychydig o berchennogion. *Monopoly* ydyw, ac un o weddillion yr hen *Feudal System*. Bydd yn rhaid cyn bo hir cael gwared o gyfraith y rhwym-ddysgyniad a'r cyneidedd *(entail and primogeniture)* sydd yn sicrhau'r stad i'r mab hunaf, gan nad faint fyddo'r stad mewn dyled. Nid oes dim rheswm digonol paham na chawn fasnach rydd *(free trade)* mewn tir, fel pethau eraill. Dywedasom am y peth a elwir y "*screw*" ar y deiliaid. Brycheuyn du ydyw hwn ar arf-bais Cymru, ac y mae yn rhaid ei symmud; ond swt mae gwneyd hynny? Trwy oleuo y wlad. Pwy feddant ar fwy o gyfleusderau i wneyd hyn na gweinidogion yr Ymneillduwyr? A chan bwy mae mwy o ddylanwad ar y bobl? Da gennym weled fod rhai o honynt yn dechreu teimlo y ddyledswydd. Nid gwiw disgwyl ar offeiriaid y llywodraeth wneuthur dim o'r fath. Eu hymdrech hwy, fel corph, yw cynnal i fynu Doryaeth, oblegid meddyliant mai dyna'r ffordd oreu i gynnal i fynu y cyssylltiad halogedig sydd wedi bod hyd yn hyn rhwng eu heglwys â'r "fraich o gnawd," sef y Llywodraeth. Dywedyd ydym "hyd yn hyn," oblegid dangos y dadleu sydd wedi bod yn y Senedd er ys mis y'nghylch y chwaer eglwys yn yr Iwerddon, y golygiadau sydd ar gynnydd yn Brydain y'nghylch gwaddoli un enwad o grefyddwyr ar gost yr enwadau eraill. Pe fyddai eisiau darbwyllo gweinidogion yr Ymneillduwyr i gredu fod yn ddyledswydd arnynt i oleuo'r bobl mewn pethau a berthynant i'w breiniau tymhorol, dywedem wrthynt fod cyssylltiad anwahanadwy rhwng rhyddid crefyddol a rhyddid gwladol. Nid all un ddim bodoli heb y llall; ond nid ein dyben ni yn bresennol yw trafod y pwnc hwn. Gobeithio ydym y gwna holl Ymneillduwyr Cymru, yn weinidogion ac yn bobl, i ddihuno i'r ddyledswydd sydd arnynt i waredu eu gwlad o dan y caethiwed *politicaidd* y mae ynddi. Mae Etholiad cyffredinol i gymmeryd lle yn fuan. Ni gawn weled cyn bo hir p'un ai ymddarostwng wna ein cyd-wladwyr i gymmeryd y "*screw*" yn dawel y tro nesaf fel arferol, neu ynte eu bod yn bwriadu sefyll fel dewrion dros eu breiniau.

Syr,—Wrth edrych i'r Almanac ni a gawn fod deuddeg mis yn y flwyddyn, ac wrth edrych i'r *Time Table* yn yr hen Walkingame anwyl, cawn yr un peth. O bossibl y gwyr eich darllenwyr dysgedig am awdurdodau ereill a gwell; ond a chaniatau yr uchod yn gywir, etto dywedir

wrthyf fod un flwyddyn yn y cyfnod Cristnogol dri mis namyn ychydig ddiwrnodau yn fyr i wneuthur deuddeg mis. Pa flwyddyn ydoedd, a phaham yr oedd felly? OPODELDOC.

SYR,—Mawr y carwn gael esboniad y Parch. I. T. W., Cefncoed-cymmer, ar I. Tim. iii. 16.—"Ac yn ddiddadl mawr y dirgelwch Duwioldeb, &c."

Ger Llanboidy. UNDODWR.

HAF, DEG HAF.

Oer fu'r gauaf, hîn ysgethrin,
Oer ei fantell eira,
Byr ei ddydd, a'i wynt yn erwin,
Caled oedd y gaua;
Ond mae binon hâf yn nesu, haf, deg haf,
Y mae'r gog yn dechreu canu,
Croesaw haf, hyfryd haf,
Wedi oerni, tywydd brâf.

Daear chwardd dan wenau'r nefoedd,
Chwyth y dirion awel;
Tremia'r haf ar donau'r moroedd,
Cysgant hwythau'n dawel;
Pwy na frysiai i dy foli? haf, deg haf,
Pwy na chanai bennill iti?
Croesaw haf, hyfryd haf,
Wedi oerni, tywydd brâf.

Dacw'r blodeu, dacw'r gwenyn,
Dacw'r mêl a'r 'falau,
Dacw fara, caws, a 'menyn,
Dacw bob cyfreidiau:
Huliodd haf ei fwrdd yn llawen, haf, deg haf,
Caiff groesawiad goreu'r awen;
Croesaw haf, hyfryd haf,
Wedi gauaf daeth yr haf.

Dysgodd gauaf ini wgu
Gyda'i aeliau duon,
Ond yr haf a ddysg in' wenu,
Gyda'i olwg tirion;
Hael dy law a mwyn dy wenau, haf, deg haf,
Hael a siriol byddwyf finnau;
Megys haf, hawddgar haf,
Gwenu ar bob wyneb wnaf

Glan Afon Conwy. I. D. FFRAID.

GOFYNODD dyn ffraeth un tro i wladwr pa ran a chwareuai ef yn nrama fawr bywyd? "Yr wyf yn meindio fy musnes fy hun," oedd yr atteb.

GWERTH AMSER.

Yr oedd dyn, ag oedd wedi ei gondemnio i farwolaeth, wedi ei gyfyngu mewn carchar, lle nad oedd ganddo un modd gael dwfr ond yn unig trwy bibell fechan trwy furiau ei gell. I'r bibell yma yr oedd *stopper*, neu dap, i ollwng neu i attal y dwfr fel y mynid.

Yr oedd y *reservoir*—sef yr hyn a gadwai y dwfr—yn guddedig o'i olwg, felly ni wyddai faint o ddwfr oedd ynddo. Pan aeth efe gyntaf i'w gell, dywedwyd wrtho fod yn rhaid iddo farw y foment y buasai'r diferyn olaf o ddwfr wedi myned.

Wedi bod ychydig amser yn y carchar, darfu iddo yn anystyriol iawn droi'r *stopper*, a gollwng y dwfr ar draws yr ystafell er mwyn difyrwch.

O'r diwedd, fodd bynag, darfu iddo gael ei ddwyn yn ddisymmwth i ystyriaeth o'r hyn a wnaethai, a dywedodd wrtho ei hunan, "Gwae fi, mor ffol yr wyf wedi bod, felly i wastraffu y dwfr yma; oblegid bydd y diferyn olaf yn cyhoeddi i mi dymor fy marwolaeth."

"Nis gwn i yn y byd faint o ddwfr ddichon fod ar ol; fe allai fod cannoedd o farilau, ac y mae'n bossibl nad oes dim galwyn; ni ddefnyddiaf o hyn allan ond yn unig yr hyn fydd yn anhebgorol angenrheidiol i mi."

Y carchar ydyw y byd hwn, ac amser ydyw y dwfr. Nis gwyddom ni ddim faint sydd ar ol i ni. Fe allai fod blynyddau lawer, ac y mae'n bossibl nad oes un awr. Bydded i ni gan hyny wneuthur defnydd o'n hamser.

Mae'r eiliadau'n hedeg—mae munyd wedi mynd!
Mae'r munydau'n hedeg—fe redodd awr, fy ffrynd!
Y d'wyrnod aeth yn sydyn, ac yma'r nos y mae!
Wythnos, mis, a blwyddyn, sydd felly'n myn'd yn glau.

Blwyddyn, blwyddyn, blwyddyn, mor fuan heibio'r â!
Pwy wyr nad hon yw'r flwyddyn, fy mlwyddyn olaf wna!
Ychydig flwyddi byron, mor gyflym maent yn ffoi,
A ninnau a'n cyfeillion, gawn yn y bedd ein rhoi!

Amser, fel ryw afon, byth, byth lifeiriol yw,
Yn llithro heibio'n gysson: ein bywyd breuddwyd yw—
Mwg, cysgod sydd yn ciljo, blodeuyn teg ei wawr,
Yn hardd ei olwg eto, ond gwywa mewn un awr!

YR IAWN.

"Duw, cariad yw."—"Y mae cariad Crist yn ein cymhell."

1. Y mae'r esboniad cyffredin o athrawiaeth mechniaeth yn ei gwneuthur hi'n ammhosibl i garu Duw Dad. Gallwn garu Crist, oblegid y mae ei dosturi tu hwnt i bob dadl. Y mae y darlun a dynir o gymeriad y Tad gan esbonwyr uniongred, fel y gelwir hwnt, yn ein llanw a braw,

a dychryn, a chasineb. Yr ydym yn diange rhag "y gofynwr anghymodadwy heb ddirwy gyflawn." Y mae'r oll o'n cariad a allem deimlo tuag at Dduw, yn ymsefydlu ar Grist. Boddlonwyd Crist heb i berson arall dalu i'r Duwdod waed iawnol. Y mae cariad Crist yn hyfryd, yn deilwng, yn gymhellol, yn enillgar.

Y mae'r eglurhad cyffredinol o'r cymod yn peru i ni ddymuno na fuasai yr un Tad, ac i synu paham nas gallasai Efe fod yn fwy tebyg i Grist.

Pe cymerai dynion Crist yn esiampl hwy ddeuent yn hollol enillgar. Cymerent y Tad yn safon, deuent yn gwbl wrthdarawiadol. Y mae meichniaeth noeth yn dangos y Tad megis barnwr yn rhwym i ofyn am gosb anfeidrol; a'i fod, yn llythyrenol-anherfynol, yn ddigllawn dragwyddol wrth y troseddwr, heb amcanu ei adferiad. Nad yw ddrwg gan y Tad nas gall Efe, yn unig geryddu, yn buredigaethol ddigonol, ond y bydd iddo ymddigrifo yn ddidor a byth, yn nghofio anfeddyginiaethol ei blentyn. Hynny yw, y mae tuedd foesol yr esboniad yn anhebyg iawn i ysbryd Crist tuag at y bechadures, a chan hynny y mae'r golygiadau arferol ar athrawiaeth y cymod yn anghristionogol mewn gwirionedd, er eu bod ar un olwg yn dyrchafu Crist ar orsedd rasol uwch, hyd y nod, na'r cariad tragwyddol anfeidrol ei hun.

2. Ond y mae'r athrawiaeth, yn ol y golygiadau uniongred, yn anorphenedig etto. Ni feiddia eu phleidwyr mwat selog eu chymeryd hi hyd at eu chanlyniadau cyfreithlon eithafol. Pa beth oedd y ddirwy a fygythiwyd yn erbyn dyn; ai yr oll ag oedd yn gynnwysedig yn y ddedfryd a gyhoeddodd Duw am ei bechod? Os cymerodd Crist arno y felldith ddyledus am bechod dyn, yn lle dyn, yna, fe ymgymerodd â'r OLL gosbedigaeth.

Os na chymerodd arno yr *oll*, ni ddioddefodd gosbedigaeth dyn. Beth oedd y ddedfryd? Poen, tlodi, newyn, temtasiynau, gwg dwyfol, anghyfanedd-dra enaid? Dioddefodd y rhai hynny oll, ond nid ydym yn darllen iddo ddioddef clefyd ac afiechyd personol. Profodd farwolaeth. Ond ni ddaethom etto at gosb arbenig pechod dyn. Y gosb hono oedd, meddant, tragwyddol alltudidiaeth o bresenoldeb Duw, tragwyddol losgiad yn nhyrdyniadau diorphwys uffern. Hon yw'r gosb arswydus, y ddirwy ddychrynllyd ddyledus i droseddwyr. A ddioddefodd Crist y ddedfryd hon? Os felly, y mae Crist yn awr, ac a fydd i dragwyddoldeb yn uffern! A'i arswydo yr ydych wrth y meddwl? Etto, hon yw'r gosb, meddant, a fygythiwyd yn erbyn dyn oherwydd ei drosedd.

Ond, attebant, y mae Crist yn berson anfeidrol, a chan hynny, y mae ei ddioddefaint am yspaid byr yn bridwerth anherfynol creadur meidrol. Dyma ffug-ddadl arall. Onid yw cosb anherfynol ar greadur terfynol yn wrthddywediad ymwybodol? Os dywedir y gall Duw gyfnewid yr anherfynol am y terfynol, rhaid atteb ei fod wedi edrych tros dri o anwireddau, sef y tair ffug-ddadl a nodwyd yn ystod y sylwadau hyn, sef yn y rhifyn diweddaf ac yn yr un presenol. Heb ond enwi yn unig y syniad hwnnw a gynwysir mewn arall-osodiad, sef na waeth ar bwy, nac yn mh'le, y disgyn cosb, ond iddi ddisgyn ar un dyn, neu yn rhywle; y mae'r oll o'r gydwybod, a'r galon, a'r rheswm, yn gwrthryfela wrth glywed am y fath haeriadau creulawn.

Liverpool. GWIRIONEDD.

YR EGLWYS SEFYDLEDIG YN YR IWERDDON.

Dyma'r pwnc mawr y'ngeneuau pawb yn awr, nid yn unig yn y Senedd ond trwy yr holl deyrnas. *Rhaid i'r Eglwys hon darfod fel Eglwys Sefydledig!* Geiriau W. E. Gladstone yn ei araith a draddododd yn y Ty ar y dwyfed dydd ar bumtheg o Fawrth. Rhaid iddi ddarfod oherwydd nid yw yn bossibl gwneuthur cyfiawnder i'r Iwerddon, a'i heddychu, cyhyd ag y cynhelir yr Eglwys hon i fod yn sarhâd i'r trigolion. Hawdd oedd deall wrth y bloeddiadau ar "hwra" yn y Ty fod yr areithiwr hyawdl yn llefaru meddyliau y mwyrif. Eglwys yr estron ydyw a sefydlwyd trwy drais ac a gynhaliwyd i fynu am oesoedd trwy rym y cleddyf. Yn lle bod yn foddion i broselytio'r Gwyddelod, fel y dywed rhai oedd dyben y Sefydliad, suro ei teimladau y mae, a chynnal i fynu elyniaeth barhaus â'r *Saesnach*. O'r diwedd, ar ol ymrafaelion a chynnwrf am oesoedd, wele anobaith a ffyrnigrwydd y trigolion yn rhoddi bod i'r fradwriaeth fwyaf erchyll, fwyaf peryglus, a fu mewn glad erioed. Fel canlyniad, mae wedi deffroi holl drigolion Brydain, nid yn unig i ddyfeisio moddion hunan-amddiffyniadol, ond hefyd i chwilio i mewn i'r achos o'r fradwriaeth. Y teimlad cyffredin yn awr yw, fod yn rhaid gwneyd cyfiawnder â'r Iwerddon, ac i fod yn beryglus oedi ym mhellach. Addefir mai un o'r gormesion sydd yn cynddeiriogi y trigolion yw'r Eglwys Sefydledig ac fod yn rhaid bellach ei symmud.

Caniataer i ni osod gerbron ein darllenwyr ychydig o engreifftiau i ddangos y fath drais yw yr Eglwys hon yn yr Iwerddon, a'r fath chwerder ysbryd raid ei bod yn achosi yn y trigolion.

Ym mhlwyf Tullagh, yn Esgobaeth Emly, nifer y Roman Catholiciaid ydyw 3,723. *Yn eu plith y mae pedwar Anglican ar hugain!* Wrth *Anglicans* mae i chwi ddeall Protestaniaid ag ydynt yn addoli yn yr Eglwys Sefydledig. Am gymmeryd gofal o eneidiau y pedwar-a-deugain derbyn yr Offeiriad yn flynyddol £537; ychwaneg na deuddeg punt y pen. Yn Derry McCross, Cloyne, y Roman Catholiciaid ydynt 1991, a'r Anglicans, *pedwar-ar-ddeg!* Cyflog yr Offeiriad yw £616, sef pedair punt a deugain y pen. Ym mhlwyf Kilkenny, yn Esgobaeth Tuam, y mae *un-ar-bumtheg-ar-ugain* o Anglicans, a 9,300 yn Roman Catholics. Cyflog yr Offeiriad am ddarllen Credo Athanasius, &c., i'w ddyrned cynnulleidfa, yw £524. Rhown un engraifft yn ychwaneg. Yn Orradowen y mae *chwech a deugain* o Anglicans, a 5,745 o Roman Catholiciaid. Derbyn yr Offeiriad yn yn flynyddol am fugeilio y chwech a deugain hyn y swm o £477. Teg yw sylwi nad yw pob *living* yn yr Iwerddon mor frâs â'r rhai hyn, ond gyda golwg ar y niferi sydd yn addoli yn yr Eglwys Sefydledyg, rhydd yr uchod, ar y cyfan, feddwl lled gywir, oddieithr yn y gogleddol barthau o'r ynys, lle mae Presbyteriaeth yn boblogaidd. Pwy ryfedd gan hynny fod y Gwyddelod yn anesmwyth dan gymmaint gormes, ac yn cydymdeimlo â'r Ffeniaid? Mae yn yr Iwerddon, mewn nifer grwn, bum miliwn o Roman Catholiciaid ac oddeutu haner miliwn o Anglicans.

Fel yr awgrymasom yn barod, y mae cyflafn Clerkenwell ac eraill o'r un natur wedi peru arswyd ar y wlad hon, ac nid heb wir achos. Fel canlyniad,

y llais cyffredin yn awr yw "Rhaid gwneyd cyfiawnder â'r Iwerddon," a phan y cyfarfu y Senedd y tro hwn, gorfu ar y Weinyddiaeth hysbysu iddi pa fesurau a fwriadai gynnyg i'r perwyl. Ymddangosodd mai un peth yn eu dyfais er mwyn tawelu y Gwyddelod oedd sefydlu Coleg Catholicaidd newydd a'i waddoli, ychwanegu at y Rhodd Frenhinol i'r Presbyteriaid, y'nghyd a gwneuthur rhyw welliantau yn yr Eglwys Sefydledig. Y casgliad teg allasid dynu oddiwrth areithiau y gweinidogion oedd, nad oedd ganddynt unrhyw ddyfais bennodol, ac nad oeddynt, neu o leiaf, nad ymdaangosent, fel pe buasent wedi deall sefyllfa yr Iwerddon yn iawn. Wedi amryw yn y Ty ddyweyd eu meddwl ar ddyfais y Weinidogaeth, rhai yn ei chymmeradwyo ac eraill yn ei barnu, ar y 17eg o Fawrth traddododd Mr. Gladstone araith a wnaeth i D'Israeli a'i gyfeillion edrych yn syn. Dangosodd trwy resymau anwrthwynebol fod dyfais y Weinyddiaeth yn groes i ysbryd yr oes, ac yn holloll ammhriodol i'r Iwerddon, a chyda golwg ar yr Eglwys Sefydledig, na wnai dim y tro lai na diddymiant. Dywedodd ei fod ef fel un wedi gwneyd fynu ei feddwl *fod yn rhaid iddi ddarfod fel Eglwys Sefydledig.* Yr oedd yn amlwg i bawb yno fod y mwyrif yn dal yr un golygiadau, a'u bod o'r farn na fydd dim heddwch yn yr Iwerddon heb osod pob enwad crefyddol ynddi yn gyfartal o ran y Llywodraeth, hynny yw, trwy fod pob enwad yn cynnal ei achos ei hun.

Yn gymmaint ag i fod Mr. Gladstone yn awr yn canfod y mwyrif o'i ochr, ac i fod yr amser wedi dod i osod mesurau penderfynol o flaen y Ty y'nghylch yr Eglwys Wyddelig, ar yr 31ain o Fawrth gosododd ger bron y Senedd ddau gynnygiad, a gwnaeth araith ddyhysbyddawl ar yr achlysur. Y cynnygiad cyntaf oedd, fel y mae yn hysbys bellach i bawb, "*Fod yn angenrheidiol i'r Eglwys Sefydledig yn yr Iwerddon ddarfod fel Sefydliad gwladol; pob cyfiawnder, er hynny, i gael ei wneyd â hawliau personol a phob meddiant anghyoedd o natur eglwysig;*" hynny yw, mewn geiriau eraill, fod i'r Esgobion i dderbyn eu cyflogau ac i fyw yn eu palas-dai hyd derfyn eu hoes, ac i fod i bob Offeiriad i gael mwynhau ei gyflog nes yr ymadawo â'r fychedd hon. Hefyd fod i'r Eglwys ddal meddiant o bob peth sydd yn eiddo iddi yn anymddibynol â'r wladwriaeth. Beth all fod yn deccach, beth yn fwy dyngarol? Llawer gwahanol yw hyn i'r dull y danfonasant hwy allan o'r Eglwys y Dwy Fil Gweinidogion ar ddydd St. Bartholomew, 1662. Ni wyddai llawer o honynt hwy b'le i gael lletty noswaith na boreufwyd drannoeth.

Y cynnygiad arall oedd "*Fod i'r Senedd osod terfyn tros amser pennodol ar bob appwyntiad newydd yn yr Eglwys, i'r dyben i osod mor lleied rhwystrau ag y fyddo yn bossibl ar fforddy Senedd newydd i ddyfod i benderfyniad beth sydd i wneyd â'r Eglwys;* hynny yw, os y digwydd i Esgob neu Offeiriad farw yn y cyfamser, nad ydyw ei le ddim i gael ei lanw.

Wedi i Mr. Gladstone orphen ei araith, cododd Lord Stanley ar ei draed i wrthgynnyg y gwelliant ar y ddau gynnygiad, fel hyn:—"*Fod y Ty hwn o'r farn, er y dichon iddo addef, wedi i'r Dirprwywyr orphen eu gwaith, fod rhyw ddiwygiadau yn ofynol yn nhymorolion yr Eglwys, y dylai pob cynnyg at ddadgyssylltu a diwaddoli yr Eglwys Wyddelig gael ei ohirio nes y cyfarfydda y Senedd newydd.*"

Bu y Ty yn dyrnu ar gynnygiadau Mr. Gladstone dros bedair noswaith —rhai yn eu cymmeradwyo, eraill yn ceisio amddiffyn yr Eglwys, ac eraill yn difrio Mr. Gladstone. Wedi i un flino cymmerai y llall i fynu y ffyst. Pa fodd bynnag, ar y pedwarydd o Ebrill, ymrannodd y Ty. Dros y cynnygiadau yr oedd 330; yn eu herbyn, 270; y mwyrif o 60 drostynt. Y cwestiwn nesaf i'w benderfynu oedd, "*P'un a oedd y cynnygiadau i gael eu gosod o flaen Pwyllgor y Ty, ai nid oeddynt.*" Ymrannodd y Ty yn union drachefn. Dros eu gosod o flaen y Pwyllgor, 328; yn erbyn, 272. Y mwyrif dros y cynnygiad, 56.

Yn y Pwyllgor hefyd ymdrechodd y Weinyddiaeth wrthwynebu y cynnygiad, neu y *resolution* cyntaf, fraich ac ysgwydd, fel y gwnaethant y tro o'r blaen, a brwd fu y dadleu dros dair noswaith. Ar y cyntaf o Fai, ymrannodd y Pwyllgor. Y pryd hwn, yn lle 60, yr oedd y mwyrif wedi chwyddo i 65. Mawr fu y bloeddio y tro yma, "hwra." Braidd na chlywsid y bloeddiadau o ben Coedfol, ym mhlwf Llandyssul.

Y cam nesaf oedd deisyf ar y Frenhines i drosglwyddo i'r Senedd, dros ryw amser i'w bennodi, ei hawdurdod i appwyntio Archesgobion ac Esgobion yn yr Eglwys Wyddelig, er mwyn attal cyssylltiadau newyddion i gael eu ffurfio ynddi. Darfu i'r Prif Weinidog, Mr. D'Israeli, awgrymmu na chaniatai ei Mawrhydi i'r Senedd y deisyfiad; ond gwyddai hi ei dyledswydd yn well na hynny. Peth lled brysur fyddai iddi hi wrthsefyll ewyllys y Ty a'r Wlad. Dyma, mewn gwirionedd, ddygodd Charles I. i'r *block*. Ond nid felly ein Brenhines anwyl. Cydsyniodd yn union a chais y Ty, ac ar y 12fed o Fai danfonodd ei hatteb iddynt gyda Lord Royston. Swm a sylwedd yr atteb oedd, fod gan ei Mawrhydi bob ymddiried yn noethineb y Ty, ac felly am iddynt beidio gadael i unrhyw berthynas a fodolai rhyngddi hi â'r Eglwys Sefydledig i setyll ar eu ffordd i gario ym mlaen eu hamcanion. Yr oedd hi yn cydsynio yn hollol â'r cais a ddanfonwyd atti. Mewn canlyniad i atteb ei Mawrhydi, rhoddodd Mr. Gladstone yn y fan rybydd y buasai iddo ef y noswaith ganlynol ddwyn ysgrif o flaen y Ty i'r dyben i attal unrhyw appwyntiadau newyddion i gael eu gwneyd yn yr Eglwys Wyddelig cyn y byddo i'r Senedd newydd ddyfod i ryw benderfyniad yn ei chylch. Nos Fercher ganlynol, yn ol ei addewid, gosododd ei ysgrif ar fwrdd y Ty. Gelwir yr ysgrif *Suspensory Bill*, ac os y pasia trwy y ddau Dy, y mae i fod mewn grym hyd Awst 1, 1869.

Yr unig gyssur sydd yn awr gan Weinidogion yr Eglwys Sefydledig a'r Toryaid, yw, y bydd i Dy yr Arglwydd i wrthod yr Ysgrif. Os y gwna yr Arglwyddi hyn, gwnant fwy o niwed nac o les i'r Eglwys Sefydledig yn y diwedd. Y canlyniad fydd, cynnyrchir digofaint aruthrol yn y wlad hon, yn gystal ag yn yr Iwerddon, a chodir gwaedd uwch nac erioed am waredigaeth oddiwrth Dy ag sydd yn setyll ar ffordd pob mesur o gyfiawnder a thegwch. Dylent wybod mai nid yn dragywydd y peru amynedd y wlad, a phan y delo hi i'r pendraw mai "Trech gwlad nac Arglwydd."

Dyma setyllfa y cwestiwn yn bresennol. Mae Mr. Gladstone wedi gwneyd ei feddwl i fynu i fyned ym mlaen â'r gwaith. Mae wedi gosod ei ddwylaw wrth yr aradr, ac ni edrych yn ol nes myned â'r gwys i ben y tir. Nid oes dim ammheuaeth nad ydyw'r Eglwys Wyddelig wedi ei

dedrydu, gan nad beth am ei hanwyl chwaer yn Brydain. Meddwl ydym y gallem ni y'Nghymru wneyd i fynu gystal *case* â'r Gwyddelod, gan nad beth am Loegr. Ymddengys fod yr Archesgobion yn lled-awgrymmu i'r Offeiriaid mai nid annoeth fyddai iddynt ddechreu troi peth o'u sylw yn fwy yn y dyfodol at y gyfundraeth wirfoddol *(voluntary system)*. Rhyw arwydd lled hynod yw hwn, onite? A ydyw'r Offeiriaid eisioes yn dirgel-gredu mai doeth fyddai iddynt i baratoi erbyn y storom, er nad ydyw etto arwyddion ei dynesiad ond cwmwl bychan, megys cledr llaw gwr, yn y gorllewin. Yr ydym bron credu yr elem unwaith yn ein bywyd i Eglwys rhyw blwyf i glywed y *Churchwarden* yn cyhoeddi fod casgliad dydd Sul nesaf i gael ei wneyd yno, tuag at y weinidogaeth, golchi gwisc wen yr Offeiriad, a chyweirio pen yr eglwys. Byddai yn rhyw beth mor ddieithr i'n clystiau. Yr ydym wedi byw i weled pethau rhyfedd, pwy wyr na chawn weled y diwygiad hwn etto cyn marw?

O BOB dysgeidiaeth, y rhan mwyaf anhawdd ydyw dad-ddysgu; y mae tynu camgymmeriad neu ragfarn allan o'r pen mor boenus a thynnu dant, ac nid yw y dioddefydd byth yn diolch i'r hwn sydd yn gwneyd hyny.

GWYL DEA YSGOL SUL HEN DY CWRDD BLAENGWRACH.—Dydd Llun, y 4ydd o fis Ebrill, cynhaliodd yr Ysgol uchod ei gwyl *Dea* flynyddol. Mae'r Capel yn sefyll ar fryn uchel, mewn canol coed ac anialwch. Nid pell ydyw o Station Glyn-Neath. Wrth bob hanes, adeiladwyd yr Hen Dy Cwrdd oddeutu y flwyddyn 1704, ac adeiladwyd y Ty presennol yn 1830. Yr ydys yn sicr fod y gynnulleidfa yn llawer hûn na'r Ty Cwrdd cyntaf, gad nad b'le yn y gymmudogaeth yr ydoedd yn addoli cyn ei adeiladu. Cynelir yr achos yno yn awr gan ryw ychydig o weithwyr yr ardal trwy gynhorthwy y cyfaill a'r brawd ffyddlon, Mr. Jenkin Williams, genedigol o Aberdâr. Mae efe yn ffyddlon ac yn ddiwyd i gynnal yr achos ac hefyd yr Ysgol Sabothol. Daeth lluaws i'r wyl o Ferthyr ac Aberdâr, rhy faith i'w henwi. Trodd allan yn ddiwrnod hynod o ddymunol. Cyfrannogodd oddeutu 400 o bleidwyr yr Ysgol Sabothol o'r "bara brith" ac o'r gwlybwr sydd yn "llonni heb feddwi." Trwy garedigrwydd Mr. Evan Rees, amaethwr, cafwyd darn o dir noeth i'r plant ac erail i gyd ychwanegu at ddedwyddwch y dydd. Yn y prydnawn cynhaliwyd Cyngerdd o flaen y Ty Cwrdd, pryd y datganwyd ac yr adroddwyd darnau soniarus gan gôr Hen Dy Cwrdd Aberdâr a phlant Ysgolion Sabothol y ddwy gynnulleidfa, sef Aberdâr a Blaengwrach. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mr. Jenkin Williams. Ar y diwedd pasiwyd *vote* o ddiolchgarwch i'r menywod am eu deheurwydd a'u gofal yn paratoi'r *tea*, i'r ymwelwyr am eu presenoldeb, i Mr. Evan Rees am fenthig ei gae, ac i'r cadeirydd, Mr. Jenkin Williams. Yn wir, cafwyd yno gyfarfod pleserus ac adeiladol.

CARW COCH, Trecynon.

[Gobeithiwn na anfoddlona y "Carw" i ni am gymmeryd ein cennad i dynu allan o'i draethawd manwl ar Hen Dy Cwrdd Blaengwrach, yr hwn

draethawd sydd yn ein meddiant yn bresennol mewn llaw-ysgrif, enwau y Gweinidogion canlynol a fuont yn gweinidogaethu yn Blaengwrach :—

Y Parch.	Henry Davies	1712—1721
„	Thomas Morgan	1779—1813
„	John Davies, dros ychydig fisoedd.	
„	William Williams	1815—1834
„	Owen Evans	1836—1837
„	Thomas Rees	1837—1840
„	David Jones	1847
„	Evan Lewis	1851
„	Evan Lloyd, yn awr, o'r Cwmbach.	

Nid oes dim ammheuaeth ar ein meddwl ni, er nas gallwn ddwyn profion hanesiol i gadarnhau y ffaith, nad Mr. Howell Thomas, offeiriad Glyncorwg, ac un o'r Dwy Fil, oedd y cyntaf a blannodd yr Eglwys hon a fu unwaith yn lluosog a dylanwadol yn y gymmydogaeth, er mai Eglwys yn yr "anialwch" ydoedd.—Gol.]

Hen Dy Cwrdd, Coedycymar.—Cynnaliwyd y bedwarydd Eisteddfod flynyddol yn y Capel uchod dydd Llun y Pasc diweddaf, pryd y rhoddwyd tua 38 o wobrwyon rhwng aelodau yr Ysgol Sabothol, mewn modd pur drefnus. Nid oedd y cynulliad yn fawr, ond drwy'r cyfan cawsom cyfarfodydd neillduol o wresog, a gwedd pawb yn ymddangos eu bod wedi cael eu llwyr foddloni. Beirniaid y canu oedd Messrs. John Jones a Thomas Rees, Twynyrodyn, Merthyr. Beirniad y Cyfansoddiadau a'r Adroddiadau, Mr. Henry Edwards, Cwmbach. Y Llywydd, Gweinidog y lle. 'Rwyn meddwl y gallaf dywedyd fod pawb o'r ymgeiswyr wedi cael eu llwyr foddloni gyda'r personau hyn oll. Nid yw hyn yn digwydd yn aml yn yr Eisteddfodydd. Y Farddoniaeth oedd—Pedwar Penill i gychwyniad yr Ymofynydd. Buddugol, Jenkin Rees, Dowlais. Am y Traethawd ar yr Ysgol Sabothol, rhanwyd y wobr rhwng David Jones, Twynyrodyn, a William Harries, Cefn. Da genym ddywedyd fod y gystadleuaeth rhwng y plant yn rhagori yn mhell yn hon ar y rhai blaenorol. Gobeithio y bydd hîr oes i'n Eisteddfod fechan, a phob llwydd i'w dilyn o flwyddyn i'w gilydd, a bydded ei motto hi Yn Ddaioni.

Coedycymar. W.

Y Cwrdd Blynyddol.—Dymunir arnom i hysbysu fod y Cwrdd Blynyddol eleni i gael ei gynnal yn y Cwmbach, ger Aberdâr, ar y cyntaf ar ail ddydd o fis Gorphenaf. Y Parch. J. Davies, o Alltyplacca, sydd wedi ei appwyntio i bregethu y bregeth boreu dydd Iau. Pwnc y gynnadledd—"Beth sydd i ddeall wrth, a pha fodd y mae i ni, lynu yn ein proffes." Heb. iv. 14. Taer erfynia y Gweinidog ar bawb o'r Gweinidogion ddyfod yno, a dyfod mewn amser erbyn y Cwrdd yn yr hwyr dydd Mercher am saith.

Y Diweddar Barchedig John Jeremy, o Gaeronen.—Rhyw fodd neu gilydd darfu i ni golli ein golwg ar enw ein hen gyfaill fel un a fu yn gweinidogaethu dros ryw amser yn y Cribin. Digwyddodd hyn yn hollol anfwriadol. Nid ydym yn ystyried fod neb o'n gweinidogion ag

ydynt wedi ymadel a ni yn angeu, o ran ffyddlondeb, diwydrwydd, a rhodiad cysson a'i broffes, yn fwy teilwng o'i enwi yn barchus na Mr. Jeremy. Trafaelodd lawer ar bob tywydd i wasanaethu ein heglwysi yn Sir Aberteifi. Pwy bynnag fyddai yn absennol nid oedd Mr. Jeremy byth yn colli ei gyhoeddiad. Nid yn fynych hefyd y gwelwn dad a ymdrechai yn fwy i ddwyn ei blant i fynu i fod yn gymmeradwy ac yn ddefnyddiol yn y byd. Llai byth a welwn yn llwyddo fel y gwnaeth Mr. Jeremy. Mae ei fab hunaf, Walter Jeremy, Esq., M.A., yn Fargyfreithiwr yn Lincoln's Inn, ac yn aelod o'r *Presbyterian Board*. Ei fab arall, y Parch. Daniel Jeremy, M.A., sydd yn weinidog parchus yn ein henwad yn Dublin. Da gennym gael y cyfleisdra hwn i gofnodi yn yr YMOFYNYDD enw un mor deilwng o'i gofio fel gweithiwr ffyddlon yng ngwinllan Crist.

YN WERTH I'W GOFIO.—Dywed Rogers yn ei "Fwrdd Siarad" (*Table Talk*) iddo ofyn i Madam D'Aublay, ychydig wythnosau cyn iddi farw, a ydoedd yn cofio y llinellau canlynol o eiddo Mrs. Barbauld:—

Life! we have been long together;
Through pleasant and through cloudy weather;
'Tis hard to part when friends are dear,
Perhaps 'twill cost a sigh—a tear;
Then steal away, give little warning,
Choose thine own time,
Say not Good Night, but in some brighter clime
Bid me Good Morning.

Attebodd Madam D'Aublay, "Yr wyf yn eu hadrodd wrthyf fy hunan bob nos cyn elwyf i gysgu."

Priodwyd.

Mai 9.—Yn Hen Dy Cwrdd, Aberdar, gan Weinidog y lle, Mr. Thomas E. J. Morgan a Miss Jane Hulings. Dyma Ciwpid unwaith etto wedi gwneuthur ymosodiad tra beiddgar ar rengoedd yr hen lanciau. Mae'n ofynol i'r frawdoliaeth hen-lancyddol edrych ati rhag digwydd iddi yr hyn a ddigwyddodd i Theodore yn Abyssinia.

Marwolaethau.

Bu farw, Hydref 18, 1867, Mrs. Walters, gweddw y diweddar John Walters, Ysw, Llanfair-fawr, plwyf Llanfair-Clydogau, ger Llanbedr, Ceredigion, yn 65 oed. Cafod Mrs. Walters, medd 'Teifywyson,' gystudd trwm iawn dros ysbaid byr o amser, ond dyoddefodd ei chystydd yn dawel, mewn ymostyngiad i ewyllys ei Thâd Nefol. Er trymed ydoedd y dolur, dywedai yn fynych "Da yw i mi gael fy nghystuddio." Cafwyd ynddi esiampl o amynedd Christnogol trwy ei bywyd, yn enwedig yn ei chystyd olaf. Bu farw mewn mwynhâd o obaith bywiol am ail fywyd dedwydd ar ddelw y Gwaredwr yn y byd sydd etto i ddôd. Profesodd broffes dda am ystod maith o amser yn agos i ddeugain mlynedd yn Rhydygwin, Capel-y-Groes, a Chaeronen; ac yn awr y mae wedi myned at ei gwobrwy. Gadawodd ar ei hol enw parchus na anghofia ei chydnabyddion o hono tra fyddont byw. Nid ydym yn meddwl dyweyd nad oedd flaeleddau yn perthyn iddi hi, fel i'r goreu

o blant dynion; ond yr oedd ynddi rinweddau o werth i'w hefelychu. Gwrandawai gwyn yr anghenus, tostyriai wrtho, a diolchai fod ganddi allu i'w gynnorthwyo. Cafodd llawer o weinidogion o bob enwad gartref yn ei thy hi, a rhan o'i haelioni. Er mai Undodraig ydoedd, parchai bawb eraill, faint bynnag fyddent yn gwahaniaethu oddiwrthi hi mewn barn. Yr ydoedd yn dderbynydd cysson o'r YMOFYNYDD ac o'r ATHRAW hyd y diwedd. Gadawodd yn hyn, fel pethau eraill, esiampl dda i eraill ac i'w merch (Mrs. Jones, Paradise House, ger Llanymddyfri), ac y mae yn dda gennym ychwanegu ei bod hi yn dilyn camrau ac esiampl ei hanwyl fam. Mae hi wedi ymadel â'r fychedd hon, daw ein hamser ninnau cyn bo hir, ni wyddom ddim pa mor gynted. Y pwnc mawr yw, bod yn barod. Terfynwn yng ngeiriau yr hen fardd ardderchog, Iolo Morganwg:—

Gwyn fyth eu byd! gwir cadarn yw,
Y rhai sy 'n marw yng nghariad Duw;
Myned y maent i'r hyfryd wledd
Sy 'n nhir y byw tu draw i'r bedd;
Gwyn fyd y cyfiawn, yno cant,
Iawn dal gan Dduw am oll a wnant;
Gwyn fyth eu byd! ni phrofant hwy
Na dolur na marwolaeth mwy.

Ebrill 14.—Thomas Haydn Evans, Arwerthydd, Cardiff Castle, Aberdâr, yn 41 oed. Yr oedd yn aelod selog iawn yn y Capel Seisnig, ac yn un a wnaethai ymdrech mawr gyd â'r achos yno. Teimlir yno golled mawr ar ei ol; ond gartref wrth gwrs y teimlir y golled fwyaf. Yno y mae gweddw a lliaws mawr o blant, yno yn fywych y gwlychir y gruddiau a dagrau galar. Wylwch rai anwyl, teimlwch yn well o hyny, ond na foed eich dagrau yn ddagrau anobaith. Canys os ydym yn credu farw yr Iesu a'i gyfodi, na foed i ni anghofio y daw amser etto i ddwyn y rhai a hunasant yn yr Iesu gyd ag ef. Yn y cyfamser bydded iddynt y fraint o deimlo y bydd Duw yn briod i'r weddw ac yn dad i'r amddifaid. Mae hanes yr angladd yn hynod, ni welwyd erioed, goeliwn, ei debyg yn Aberdâr. Mae'n bossibl na fydd pawb yn cymmeradwyo y cwbl mewn cysylltiad ag ef. Yr oedd miloedd lawer yn bresenol, oblegid caffai Mr. Evans barch mawr gan bawb a'i hadwaenent. Ar ddydd yr angladd, dydd Gwener, ymddangosai yr holl dref fel mewn *mourning*. Yr oedd amlafrif y masnachwyr wedi cadw ei siopau hanner yng nghau oddi ar amser ei farwolaeth. Ar ddydd yr angladd cauwyd yn gyfan gwbl yn ystod amser y claddu, cadwodd rhai yng nghau trwy yr holl ddydd. Ychydig cyn tri ar gloch cyrchodd ein *rifle corps* i fyny at y ty. Yr oedd Mr. Evans wedi bod yn aelod o'r *corps* er y cychwyniad. Ym mhen ychydig amser rhoddwyd y gorchymmyn i gyffro. Pan ddechreuwyd y daith tarawodd y *band* y "Dead March in Saul." Y rai appwyntiedig i danio oedd yn arwain, y gweddill o'r gwirfoddolwyr yn canlyn; ar bob llaw iddynt oedd rhai o'r Oddfellows, a'r Iforiaid, ac ar eu hol linell hir o alarwyr yn cael eu canlyn gan liaws o Oddfellows ac Iforiaid, cymdeithasau yr oedd Mr. Evans yn aelod o honynt. O'r tu ol yr oedd lliaws mawr iawn o fasnachwyr ac eraill. Cariwyd y corph hyd y bont ar Ddar gan y gwirfoddolwyr. Yr oedd yr olygfa yn argraphiadol iawn. Yr oedd ymdaith arafa rheolaidd y gwirfoddolwyr, yng nghyd a'r miwsig trist a galarus yn rhoddi math o ddifrifedd annesgrifiadwy i'r amgylchiad. Wrth y bont cymmerwyd y corph i fyny gan aelodau y *lodges*, y rhai a'i cariasant hyd y gladdfa gyffredinol, y band yn chwareu yn achlysurol. Cyflawnwyd y gwasanaeth angladdol gan y Parch. J. J. George. Ar ol terfynu dychwelodd y cyfeillion a'r *lodges* yn orymdaith, y gwirfoddolwyr yn canlyn o yma draw, a'r *band* yn chwareu "Yr hen amswer gynt," "Gadewch i mi eu gusanu er mwyn ei fam," &c. Am dano dywed Mr. George: Yn oriau claf Mr. Evans ceir tystiolaeth hynod i allu y ffydd Undodaidd i gynnal ac i gyssuro ym mhresenoldeb marwolaeth. Mewn bywyd teimlai pan ymgrymai mewn addoliad

ei fod ger bron nefol Dad, ac yn yr angen nid oedd ganddo ddim ymdrechion ysbrydol i'w aflonyddu. Nid oedd yn gofyn nac yn ofni marw, ond ymostyngai yn ddirwgnach i ewyllys Duw. Yn dawel a gostyngedig, heb ofn neu orfoledd rhoddai ei ysbryd i fyny i Dduw yr hwn a'i rhoes ef. Nid oedd bywyd wedi bod iddo yn rhodd ddi-werth, bu'n ddiwyd yn ei ddefnydd o hono, gan gredu mae trwy ddiwydrwydd gyd a dyledswyddau bywyd y gwnaethai y parotoad goreu erbyn marwolaeth. Yr oedd dau beth yn fynych iawn yn ei feddwl—(1) Heb Dduw, heb ddim: a Duw a digon; (2) Y ffaith fod dynion yn cael eu symmud o'r ddaear pan y maent yn dechreu dysgu i fyw, yn brawf tebygol o fod bywyd arall yn yr hwn y mae rhagor i gael ei ddysgu a dyledswyddau newyddion i gael eu cyflawni, a chynlluniau newyddion i gael eu gweithio allan. Gyd â'r fath syniadau cyflwynodd ei ysbryd i'w Nefol Dad, a chyd â gwen o dangnefedd a dedwyddwch rhoddodd i'w deulu ei flarwel olaf hyd y cyd-gyfarfod yn y nefoedd fry.

Ebril 18, yn 62 oed, Edward John Jones, Belle Vue Street, Aberdar. Yr oedd yn gwanychu er ys rhai misoedd, ac yn ystod yr amser yma teimlodd fod egwyddorion y grefydd a brofesai yn werthfawr. Mynych y rhedai ei feddyliau at y Tad Mawr sydd yr trefnu holl ddigwyddiadau bywyd dyn, yr annymunol yn gystal a'r dymunol, a chredai fod y cwbl er daioni. Yr oedd yn ddyn tawel iawn a diniwed, ac y mae wedi gadael gweddw ac amryw blant yn gystal a pherthynasau a chyfeillion lawer i alaru o'i ol. Cyflawnwyd y gwasanaeth angladdol y dydd mawrth canlynol yn yr Hen Dy Cwrdd, gan y gweinidog, wedi hyny aethpwyd a gweddillion yr hen frawd i Eglwys St. Ffagan, lle y darllenwyd y gwasanaeth eglwysig arferol cyn rhoddi y pridd i'r pridd a'r lludw i'r lludw hyd fore mawr y codi.

Ebrill 22, yn 69 oed, John Morgan, o'r Post Office, Trecynon. Bu farw yn dra disymmwth, er ei fod yn dra chanolig er ys tro. Yr oedd yn ddarllenwr mawr yn ifangc, ac felly yn berchen ar fwy o wybodaeth na'r rhan amlaf o'r bobl gyffredin. Adroddir am dano ef ac un arall, na welid hwy byth allan yr hwyr ar ol dychwelyd o'u gorchwylion. Tra'r oedd ereill o iengetyd yr ardal yn ymddifyru â'u gwrol gampau, yr oeddynt hwy yn trysori eu meddyliau â gwybodaeth. Yr oedd ein hen gyfaill yma yn dra hyddysg mewn amryw gangenau o wybodaeth. Teimlai gryn ddyddordeb yn achos yr Hen Dy Cwrdd, er nad oedd yn gallu presenoli ei hun yno mor aml ag y dymunai. Heddwch i'w lwch! Claddwyd ef yn y *Cemetery* ar y 25ain.

Mai 6, yn 83 oed, Mary, gweddw y diweddar William Thomas, Trecynon, Aberdar. Claddwyd hi yn mynwent Hen Dy Cwrdd, Cefncoed, ar yr 8fed. Gadawodd yr hen wraig berthynasau a chydnabod lawer i alaru ar ei hol—amryw blant, oll yr ym yn credu yn arddel crefydd; bydded iddynt deimlo gwerth eu crefydd yr amser yma, a chael i'w heneidiau y diddanwch sydd yn Efengyl Crist. Cafodd yr hen wraig iechyd da iawn trwy'r blynyddau ac ymddangosai fel yn mwynhau bywyd, er ei bod yr analluog i glywed braidd dim er yn agos 50 mlynedd.

Mai 11, yn nhy ei chwaer a'i brawd-yng-nghyfraith, Cwmheol, Cwmaman, Aberdar, Mrs. Sarah Rees yn 69 oed. Claddwyd hi yn y *Cemetery* y dydd iau canlynol, gweinidog yr Hen Dy Cwrdd yn gwasanaethu ar yr achlysur.

"Marwolaeth ein cyfeillion sydd, yn alwad ddwys o ddydd i ddydd
I geisio sail i'n gobaith gref, am ail-gyfarfod yn y nef."

Mai 12, John, mab anwyl John ac Anne Morgan, ac wyr y John Morgan, a grybwyllwyd am dano uchod, yn chwe mlwydd oed. Ymgysurwch rieni anwyl. Yn y man ceir etto gwrdd.

"Er dodi'r bychan yn y bedd, adgyfyd etto yn fyw,
I fyd y Saint, i wynfyd hedd, i ryddid meibion Duw."